Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Diogelu mewn Ysbytai yng Nghymru

Adolygiad o Weithredu gan y Byrddau Iechyd i sicrhau bod pobl hŷn sydd yn yr ysbyty fel cleifion mewnol yn cael eu diogelu rhag niwed yn unol â gofynion Adrannau 7 a 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mawrth 2018

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Cynnwys

Cefndir	**04**
Crynodeb o'r Canfyddiadau	**07**
Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014	**10**
Atodiadau	**28**

Cefndir

Mae sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u gwarchod wedi bod yn ganolbwynt allweddol i'm gwaith fel Comisiynydd, ac rwyf wedi gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion diogelu a sut gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus i ddiogelu pobl hŷn. Mae llawer o'r cymorth a'r gefnogaeth a roddaf i bobl hŷn drwy fy nhîm gwaith achos yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â diogelu - rhywbeth yr wyf wedi ei amlygu yn fy Nghyfrol Achosion, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017[1]:

- Mae'r achosion mwyaf cymhleth y mae fy nhîm a minnau'n eu derbyn yn faterion diogelu oedolion. Mae llawer o bobl hŷn sy'n cysylltu â mi yn ofidus iawn o ganlyniad i'w profiadau, yn enwedig mewn achosion lle gellid bod wedi atal y niwed. Yn aml, maen nhw'n teimlo nad yw eu pryderon wedi eu cymryd o ddifrif ac yn dweud wrthyf yn gyson nad ydyn nhw am i unrhyw un arall gael profiad tebyg.
- Mae amgylchiadau pob unigolyn ... yn unigryw iddo ef/iddi hi, ond mae'r rhan fwyaf yn profi gofid sylweddol, ac maen nhw'n poeni, yn bryderus ac yn cael eu dadrithio. Mae llawer ohonyn nhw wedi brwydro'n galed i ddatrys eu pryderon, ond yn aml heb fawr o lwyddiant.
- Nid yw cyrff cyhoeddus yn ddigon da am ddysgu o'u camgymeriadau nac yn defnyddio lleisiau a phrofiad pobl i ategu a gyrru gwelliant parhaus i wasanaethau.
- Mae llawer o achosion lle mae pobl hŷn a'u teuluoedd wedi mynegi pryderon ynghylch achosion diogelu mewn perthynas ag ysbytai.

Rwyf wedi croesawu dyhead Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[2] i wella diogelu oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso drwy roi diogelu ar sail statudol a gosod dyletswyddau newydd ar asiantaethau statudol, ac roeddwn eisiau adolygu'r gwahaniaeth mae'r Ddeddf yn ei wneud i waith diogelu Byrddau Iechyd.

Gan hynny, ysgrifennais at y Byrddau Iechyd ym mis Mehefin 2017, gan ofyn iddyn nhw gymryd rhan mewn adolygiad i bennu pa mor effeithiol maen nhw'n ymateb i'w dyletswyddau newydd mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n deillio o'r Ddeddf, ac yn benodol y gofynion o dan Adrannau 7 a 10.

Yn benodol, mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar:

- Newidiadau a wnaed gan y Byrddau Iechyd i gyfansoddiad a threfniadaeth eu timau diogelu.
- Newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau diogelu i adlewyrchu'r dyletswyddau newydd.
- Hyfforddi staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu ac yn barod i'w cyflawni.
- Y graddau y mae Byrddau Iechyd wedi cymryd mwy o berchenogaeth ar Ddiogelu Oedolion a gweithio fel partneriaid llawn gydag asiantaethau eraill.
- Unrhyw gynnydd yn y cyfraddau nodi a chyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol yn achos pobl hŷn sydd mewn perygl ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer diogelu.
- I ba raddau, a sut, mae Byrddau Iechyd yn 'gwneud ymholiadau' yng nghyd-destun diogelu, yn unol â gofynion Adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn sgil hynny yn cyfrannu at waith achos diogelu (gan gynnwys pa mor dda mae dioddefwyr cam-drin ac esgeulustod honedig yn ymwneud â'r broses ddiogelu ac yn cael eu galluogi i gael mynediad at eiriolaeth).
- A yw dioddefwyr cam-drin ac esgeulustod honedig yn cael eu trin fel partneriaid llawn a chyfartal yn y broses ddiogelu ac yn cael eu galluogi i gael mynediad at eiriolaeth.
- Y trefniadau sydd gan Fyrddau Iechyd ar gyfer dysgu o achosion unigol, adolygiadau achos ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion, a'r graddau y mae hyn yn llywio arfer yn y dyfodol (hynny yw, i ba raddau mae diwylliant dysgu yn bodoli).
- Ymgysylltiad Byrddau Iechyd wrth gydnabod ac atal camdriniaeth ac esgeulustod, a'u trefniadau sicrhau ansawdd.

Cyfrannodd pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru, yn ogystal ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn gadarnhaol iawn at yr adolygiad hwn. Cyfeirir atyn nhw ar y cyd fel 'Byrddau Iechyd' yn yr adroddiad. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddiogelu pobl hŷn, ac nid yw'n cynnwys agweddau eraill ar ddiogelu y mae timau diogelu Byrddau Iechyd hefyd yn ymwneud â nhw (diogelu plant, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, gwrthderfysgaeth a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid).

Roedd methodoleg yr adolygiad yn syml: datblygwyd fframwaith dadansoddi (Atodiad 1), a ddefnyddiwyd i asesu'r ymatebion a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd i holiadur (Atodiad 3) a chyfweliadau dilynol a wnaed gyda staff diogelu. Ymgynghorwyd hefyd â chydweithwyr o Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd â gwybodaeth a phrofiad manwl, a bu eu barn o gymorth i lywio'r adroddiad adolygu hwn.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Cymrodd y Byrddau Iechyd ran gadarnhaol yn yr adolygiad hwn gan gyfeirio at ystod o gamau a gymerwyd ganddynt i ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ar y cyfan maen nhw wedi ymateb yn adeiladol i'r Ddeddf ac i'w dyletswyddau statudol newydd. Mae gan ddiogelu oedolion, sydd bellach yn rhan o gylch gwaith Timau Diogelu newydd a mwy cyffredinol, arweinyddiaeth gliriach, mae ganddo rywfaint yn fwy o adnoddau ac yn cael ei wreiddio'n gynyddol yng ngwaith craidd y Byrddau Iechyd. Fodd bynnag, mae ffactorau sylweddol sy'n gwanhau eu hymdrechion.

Ni chefnogwyd cyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gan Lywodraeth Cymru gan bolisïau a gweithdrefnau cenedlaethol manwl a diweddar y byddai'r Byrddau Iechyd wedi bod eu hangen arnynt i gefnogi ei gweithrediad. Er bod Llywodraeth Cymru bellach wedi comisiynu drafftio polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol, ein dealltwriaeth yw na fydd y rhain wedi'u cwblhau tan fis Rhagfyr 2018, gan adael y rhai sy'n gyfrifol am gwrdd â gofynion y Ddeddf heb yr arweiniad angenrheidiol. Felly o'r herwydd, cawn sefyllfa barhaus o wahanol ddulliau o weithredu diogelu oedolion gan y Byrddau Iechyd, yn ogystal ag amrywiadau mewn ymarfer. Mae rhai Byrddau Iechyd yn parhau i ddefnyddio Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Rhag Cael eu Cam-drin, a gyhoeddwyd yn 2013, gydag eraill wedi cynhyrchu eu fersiynau neu ddiweddariadau eu hunain. Hyd nes yr ategir diogelu oedolion gan un polisi i Gymru ac un gyfres o weithdrefnau, mae gweithrediad y Byrddau Iechyd o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf yn debygol o aros yn anghyson ac afreolaidd.

Mae Dyletswydd newydd i Adrodd o dan y Ddeddf yn gofyn ymgysylltiad gan holl staff y Byrddau Iechyd ar bob lefel. Mae'r gwahaniaethau rhwng ymarfer gwael ac ymarfer camdriniol ac esgeulus yn gynnil a chymhleth. Mae felly angen canllawiau manwl ar staff i'w helpu i ddeall y gwahaniaethau hyn yng nghyd-destun y Ddeddf, ond hyd yma ni chawsant y canllawiau hyn. O ran y Ddyletswydd newydd i Adrodd, mae adrodd pryderon diogelu oedolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y gwahanol Fyrddau Iechyd. Yn yr un modd, mae amrywio sylweddol hefyd o ran faint y mae'r Byrddau Iechyd yn gwneud ymholiadau a chyflawni ymchwiliadau.

Mae angen hyfforddiant a chymorth parhaus ar staff i ategu eu hymarfer. Oherwydd y diffyg canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, mae hyfforddwyr gan amlaf wedi gorfod dibynnu ar Ganllawiau Interim 2013 ar gyfer Cymru, sydd wedi dyddio. Nid yw'r hyfforddiant diogelu sydd ar gael i holl staff y Byrddau Iechyd (Lefelau 1 a 2) yn eu harfogi i ymateb i gymhlethdodau diogelu oedolion fel gwahaniaethu rhwng ymarfer gwael ac ymarfer camdriniol ac esgeulus wrth gyflawni eu dyletswydd i adrodd. Ychwaith nid yw'r dull hyfforddiant e-ddysgu'n tueddu i egluro'r cymhlethdod hwn ac nid yw'n amlasiantaethol. Mae'r hyfforddiant i staff gyda chyfrifoldebau penodol am ddiogelu oedolion

- hyfforddiant Lefel 3 ac i Ymchwilwyr a Rheolwyr Arweiniol Dynodedig – yn amrywio'n sylweddol o ran cynnwys a pharhad, a gan amlaf wedi'i wanhau gan ddiffyg dull amlasiantaethol.

Un o'r pethau sy'n hanfodol i amcanion y Ddeddf yw'r cyfle i gleifion a'u teuluoedd fod yn gallu ymgysylltu'n llawn yn y broses diogelu oedolion. Yn ddiweddar penderfynodd un Bwrdd Iechyd ddechrau archwilio effeithiolrwydd y person allweddol gyda hwyluso cynnwys cleifion, sef y Rheolwr Arweiniol Dynodedig. Fodd bynnag, dewisodd rai Byrddau Iechyd beidio â phenodi Rheolwyr Arweiniol Dynodedig a dibynnu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud y gwaith. Nid oes ganddynt drefniadau i wirio effeithiolrwydd Rheolwyr Arweiniol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda hyrwyddo ymgysylltiad eu cleifion a'u teuluoedd mewn achosion diogelu oedolion. Hyd yn oed lle mae'r Byrddau Iechyd yn darparu Rheolwyr Arweiniol Dynodedig, nid oedd rhai Byrddau Iechyd – nac ychwaith staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a gweithwyr achos y Comisiynydd Pobl Hŷn a gyfrannodd at yr adolygiad hwn – wedi eu darbwyllo o gwbl bod y Byrddau Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda gwella ymgysylltiad cleifion a'u teuluoedd yn y broses ddiogelu.

Mae Rhan 10 o'r Ddeddf yn adnabod pwysigrwydd asesu a galluogi pobl mewn perygl i ddefnyddio eiriolwyr. Mae'r ddyletswydd hon ynghylch diogelu oedolion yn disgyn ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn ymarferol ar y Rheolwr Arweiniol Dynodedig. Os yw'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dirprwyo achos i'r Bwrdd Iechyd, rhaid i Reolwr Arweiniol Dynodedig y Bwrdd Iechyd (os oes un yn ei le) gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau penodol i wneud hyn yn glir ac mae'n ymddangos nad yw rhai Byrddau Iechyd yn ymwybodol o'r ddyletswydd hon. Yn ogystal, nid yw Byrddau Iechyd yn cofnodi atgyfeiriadau at Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol ac ychydig iawn o hyn y gallent ei nodi. Mae hyn yn golygu bod rhai pobl hŷn a'u teuluoedd a ddylai fod yn derbyn cefnogaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn annhebygol o fod yn ei dderbyn. Nid yw'r Byrddau Iechyd ychwaith yn ymddangos i fod wedi adnabod y cyfle o dan y Ddeddf i gomisiynu Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ar y cyd ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol.

O ganlyniad i'r Ddeddf, ni all y Byrddau Iechyd mwyach adael y gwaith o gasglu ac adrodd ar ddata diogelu oedolion i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae angen i Fyrddau Iechyd sicrhau bod ganddynt systemau gwybodaeth yn eu lle sy'n addas i'r pwrpas fel y medrant ddysgu o'u gwaith diogelu oedolion, a hynny o achosion unigol ac o waith ataliol. Er bod pob un o'r Byrddau Iechyd wedi cyflwyno trefniadau i fonitro, dysgu o a rhannu data, rhai'n bur soffistigedig, nid ydynt i gyd eto'n gallu adrodd gweithgareddau rheolaidd fel faint o waith ymholiadau sy'n cael ei wneud ar ran Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae angen dull cyson o gasglu data ar lefel ranbarthol a chenedlaethol fel y daw'n bosib dilyn trywydd pobl hŷn i weld a yw eu risg o gael eu cam-drin a'u

hesgeuluso mewn ysbytai'n lleihau, ac i sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithiol, gydag ymgysylltu llawn gan y claf, eu teulu a'u heiriolwyr fel y bo'n briodol, pan fydd cam-drin neu esgeuluso'n digwydd. Er mwyn gallu dilyn trywydd a dadansoddi'r cynnydd cychwynnol a mwy hirdymor gyda gweithredu'r Ddeddf, rhaid gallu meincnodi'r cynnydd mewn diogelu oedolion ar draws y Byrddau Iechyd yng Nghymru.

Bydd diogelu oedolion yn elwa o gael ei gynnwys yn ddiweddar yng ngwaith diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru ac o'r rôl gefnogol a datblygol y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dechrau ei chwarae. Bydd y gwaith sydd mewn golwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu Offeryn Sicrhau Ansawdd a Gwella Diogelu'n darparu un offeryn casglu data i'r Byrddau Iechyd, ynghyd ag un fframwaith adrodd cyson ar gyfer Cymru, fel bo'r gwaith meincnodi a thracio gwelliannau hanfodol hwn yn cael ei wneud. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn bwriadu hwyluso datblygu a defnyddio fframwaith hyfforddiant diogelu seiliedig ar gymhwysedd ar draws Cymru.

Yn fyr felly, er yr arweinyddiaeth, ymrwymiad a chynnydd amlwg, anghyson o hyd yw gwaith y Byrddau Iechyd ar ddiogelu oedolion ar draws Cymru. Nid oes ganddo'r polisïau a gweithdrefnau diweddaraf, fframwaith hyfforddiant seiliedig ar gymhwysedd nac offeryn casglu data cenedlaethol yn gefn iddo.

Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Newidiadau a wnaed gan Fyrddau Iechyd i gyfansoddiad a threfniadaeth eu timau diogelu

Dywedodd bob un o'r Byrddau Iechyd eu bod wedi ailstrwythuro eu timau diogelu yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn rhai achosion, digwyddodd yr ailstrwythuro cyn cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Cafwyd ailstrwythuro ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn 2010 i gyfuno diogelu plant ac oedolion, ac yna i gwrdd â gofynion model gwasanaeth newydd, Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH). Mae rhai Byrddau Iechyd wedi ailstrwythuro mewn ymateb uniongyrchol i'r Ddeddf. Nodweddion cyffredin yr ailstrwythuro yma oedd:

- Uno gwahanol dimau diogelu plant a diogelu oedolion yn un tîm – timau diogelu corfforaethol – sy'n cofleidio'r holl swyddogaethau diogelu.
- Swyddi Penaethiaid Diogelu newydd.
- Mae'r rhan fwyaf, neu bob un, o'r swyddi bellach yn rhai cyffredinol ar gyfer diogelu plant ac oedolion.
- Swyddi ychwanegol wedi eu creu, gan gryfhau'r timau diogelu cyffredinol newydd.
- Ar y cyfan mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i'r staff diogelu arbenigol a symudodd o swyddi plant ac oedolion i swyddi diogelu cyffredinol.

Un o ganlyniadau'r Ddeddf a'r ailstrwythuro gan y Byrddau Iechyd oedd cynnydd yn statws diogelu oedolion. Disgrifiodd bob un o'r Byrddau Iechyd fod gan ddiogelu bellach broffil uwch yn eu Byrddau.

Mae lefel yr adnoddau a chyfansoddiad y timau newydd yn amrywio'n helaeth ac nid ydynt i bob golwg yn adlewyrchiad o feintiau tra gwahanol eu poblogaethau. Dim ond peth cynnydd y mae un o'r Byrddau Iechyd mwyaf wedi'i wneud i'w gapasiti diogelu oedolion a dywedodd ei fod yn chwilio am adnoddau ychwanegol oherwydd bod yr agenda diogelu oedolion newydd wedi "tyfu'n aruthrol" ac yn "gallu teimlo'n llethol".

Nodwedd arall gyffredin o'r gwasanaethau diogelu oedolion newydd a ddisgrifiwyd gan y Byrddau Iechyd yw'r ymrwymiad i arweinyddiaeth effeithiol a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y rhan fwyaf o'r Penaethiaid Diogelu a benodwyd yn gyn-Benaethiaid Diogelu Plant. Fodd bynnag, er bod y Byrddau at ei gilydd yn cydnabod pa mor bwysig oedd bod ganddynt rai aelodau arbenigol yn y timau diogelu gyda chefndir mewn nyrsio oedolion a gwybodaeth arbenigol am ddiogelu

oedolion, mae lefel uwch yr arbenigwyr mewn diogelu oedolion yn y timau diogelu cyffredinol yn amrywio'n sylweddol.

Mae un Bwrdd Iechyd wedi creu chwe swydd ranbarthol newydd i reoli ei ddiogelu oedolion ac wedi recriwtio gweithwyr cymdeithasol a nyrsys i'r swyddi hyn. Mae hefyd yn recriwtio meddyg i arwain ar ddiogelu oedolion ond ni ddywedodd yr un Bwrdd arall fod ganddynt gynlluniau i wneud hynny. Mae'r dull hwn – yn unol â diogelu plant, lle mae meddyg yn darparu arweinyddiaeth glinigol – yn cael ei gymeradwyo gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyn y Ddeddf, roedd oedolion yn cael eu diogelu yng Nghymru'n unol â Pholisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Rhag Cael eu Cam-drin, 2013[3] (y cyfeiriwn atynt fel Canllawiau Interim 2013 o hyn ymlaen); a'r holl Fyrddau Iechyd wedi arwyddo i lynu wrthynt. Mae'r Canllawiau Interim yn disgrifio rôl allweddol i Reolwyr Arweiniol Dynodedig ar reoli achosion. Dewisodd yr asiantaethau sy'n arwain ar ddiogelu oedolion, sef yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, i gyd benodi Rheolwyr Arweiniol Dynodedig, ond nid pob un Bwrdd Iechyd. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Ddeddf wedi arwain at newid y gwahanol drefniadau hyn – mae rhai o'r Byrddau Iechyd ond nid bob un yn parhau i fod â Rheolwyr Arweiniol Dynodedig. Braidd yn ddifudd yw'r ffaith nad yw'r Ddeddf a'i chanllawiau wedi nodi unrhyw ddisgwyliadau ynghylch Rheolwyr Arweiniol Dynodedig. P'un ai yw Byrddau Iechyd yn penodi Rheolwyr Arweiniol Dynodedig i oruchwylio rheoli achosion diogelu oedolion neu beidio, mae gan hynny oblygiadau i sut y medrant sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion y Ddeddf.

Yn fyr felly, mae'r Byrddau Iechyd wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) o ran sefydlu timau diogelu cyffredinol a rhoi mwy o statws i ddiogelu oedolion. Fodd bynnag, mae'r timau newydd yn amrywio mewn maint a chyfansoddiad a dim ond un Bwrdd Iechyd sy'n bwriadu recriwtio meddyg i ddarparu arweinyddiaeth glinigol ar ddiogelu oedolion. Ar y cyfan, mae'r Byrddau Iechyd wedi cydnabod pwysigrwydd cadw neu recriwtio staff i'w timau diogelu sydd â chefndir mewn gweithio gydag oedolion a dealltwriaeth o ofynion penodol diogelu oedolion, er bod rhai Byrddau Iechyd wedi dewis parhau i ddibynnu ar yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu Rheolwyr Arweiniol Dynodedig, a allai fod yn lleihau eu gallu i sicrhau eu bod yn cwrdd â disgwyliadau'r Ddeddf.

Newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau diogelu i adlewyrchu'r dyletswyddau newydd

Mae angen canllawiau mwy diweddar ar asiantaethau gyda chyfrifoldebau diogelu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) er mwyn gallu hyfforddi eu staff ac i dywys eu gwaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau cyffredinol ar Adran 7 y Ddeddf[4] ac yn 2017 cyhoeddodd ganllawiau drafft – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion mewn Perygl – ar gyfer ymgynghori, sy'n nodi y dylai fod 'gweithdrefnau amddiffyn cenedlaethol i ymarferwyr sy'n hygyrch, hawdd eu deall a hawdd i'w defnyddio gan yr holl bartneriaid perthnasol' (para 4). Fodd bynnag nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefnau i gefnogi gweithrediad y Ddeddf. Yn hytrach a braidd yn hwyr yn y dydd, fe gomisiynodd eu cynhyrchu yn 2017 (i'w cwblhau erbyn Rhagfyr 2018) ac felly nid oedd y canllawiau diweddaraf ar gael i gefnogi gweithrediad cychwynnol y Ddeddf.

Mae diffyg unrhyw weithdrefnau cenedlaethol newydd wedi creu penbleth i'r Byrddau Iechyd (ac i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol). Y polisïau a'r gweithdrefnau diweddaraf gan Gymru ar ddiogelu oedolion yw Canllawiau Interim 2013, sy'n rhai interim oherwydd bod y Ddeddf yn yr arfaeth pan gyhoeddwyd hwynt. Er y dywedodd y rhan fwyaf o'r Byrddau Iechyd eu bod yn dal i lynu wrth ganllawiau 2013, mae'r rhain wedi dyddio a hyd yma ni ddaeth unrhyw beth yn eu lle.

Mae rhai Byrddau Iechyd wedi datblygu eu canllawiau interim eu hunain yn seiliedig at ei gilydd ar ganllawiau 2013 ond gydag ychwanegiadau a diwygiadau i adlewyrchu'r Ddeddf (e.e. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), sy'n dangos ymrwymiad i gwrdd â gofynion newydd y Ddeddf. Awgrymodd bob un o'r Byrddau eu bod yn dal i ddisgwyl yn eiddgar am y canllawiau newydd, er nad oes disgwyl iddynt gyrraedd tan fis Rhagfyr 2018, a hefyd o ystyried mae'n debyg y bydd angen ymgynghori'n derfynol arnynt, ni fydd y canllawiau terfynol efallai ar gael tan 2019. Fodd bynnag, mae'r gwaith ymgynghori gan y gweithgor sy'n datblygu'r canllawiau newydd wedi dechrau ac mae'r Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyfrannu'n ddiwyd at gyfarfodydd ymgynghori rhanbarthol.

Yn fyr felly, ni fu'n gymorth mawr i'r Byrddau Iechyd na chafodd gweithdrefnau manwl ar ddiogelu oedolion, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), eu cyhoeddi. Mae rhai o'r Byrddau wedi ymrwymo adnoddau staff i gynhyrchu eu canllawiau interim eu hunain ac i'w diweddaru. Argymhellir bod y rhain yn cael eu rhannu ar draws Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru a bod y rhai heb y canllawiau diweddaraf yn addasu rhai gan Fwrdd Iechyd arall. Fodd bynnag, mae parhad dulliau anunedig o ymdrin â diogelu oedolion yn ymddangos i fod yn un o ganlyniadau anochel diffyg canllawiau amserol a manwl gan Lywodraeth Cymru.

Hyfforddi staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau diogelu ac wedi'u harfogi'n iawn i'w cyflawni

Mae diffyg gweithdrefnau cenedlaethol a diweddar ar ddiogelu oedolion yn gymhlethdod i ddarparwyr hyfforddiant. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r Byrddau eu bod wedi darparu peth hyfforddiant mwy diweddar ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i'w staff.

Mae cyrsiau hyfforddiant Lefel 1 a 2 ar ddiogelu cyffredinol drwy e-ddysgu wedi eu cyflwyno'n genedlaethol i'r holl Fyrddau Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. O ystyried y nifer fawr o staff a gyflogir gan y Byrddau Iechyd, mae defnyddio e-ddysgu ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol yn ddealladwy. Fodd bynnag, mae canllawiau interim 2013 yn nodi disgwyliad y dylai'r hyfforddiant, pob cyfle posib, fod yn amlasiantaethol er mwyn atgyfnerthu'r neges y dylai diogelu oedolion gael ei gyflawni ar y cyd gan yr asiantaethau allweddol. Hefyd, mae angen i staff rheng flaen ddeall yn llawn y Ddyletswydd i Adrodd fel rhan o ddiogelu oedolion ac nid yw'n bosib delio'n effeithiol â chymhlethdod y gwahaniaeth rhwng ymarfer gwael ac ymarfer camdriniol ac esgeulus drwy gyrsiau e-ddysgu byr.

Mae hyfforddiant Lefel 3 ar ddiogelu oedolion yn cael ei ddarparu gan y rhan fwyaf o'r Byrddau; mewn rhai mae ar gael i'r holl staff clinigol ond mewn eraill mae ar gael i nyrsys ar Fandiau 6 neu 7 ac uwch. Ymddengys bod cynnwys yr hyfforddiant a ddisgrifir yn amrywio, felly hefyd y gynulleidfa darged. Ar y cyfan, nid yw'r hyfforddiant Lefel 3 yn amlasiantaethol ond mae un Bwrdd Iechyd wedi gwahodd staff o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

Mae rhai Byrddau Iechyd yn darparu eu hyfforddiant Ymchwilwyr Diogelu Oedolion eu hunain, fel arfer fel ychwanegiad i'w hyfforddiant ymchwiliol Adnoddau Dynol a Dadansoddiad o Wraidd y Broblem. Mae eraill yn anfon staff ar gyrsiau hyfforddi Ymchwilwyr Gwasanaethau Cymdeithasol neu'n trefnu dim hyfforddiant Ymchwiliol.

Er bod rôl y Rheolwr Arweiniol Dynodedig yn greiddiol ac unigryw i ddiogelu oedolion, nid oes gan bob Bwrdd Iechyd Reolwr o'r fath. Mae hyn yn creu risg bosib y gallai gweithdrefnau diogelu plant gael eu dilyn ar gyfer pobl hŷn, gyda phroblemau'n cael eu colli. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod dau Fwrdd Iechyd wedi comisiynu eu hyfforddiant eu hunain ar rôl Rheolwyr Arweiniol Dynodedig ac wedi gwahodd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol leol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r Byrddau'n trefnu i'w staff fynd ar gyrsiau hyfforddi'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar rôl Rheolwyr Arweiniol Dynodedig, sy'n para rhwng tridiau a hanner diwrnod.

Yn fyr felly, ymddengys mai ychydig iawn o gysondeb sydd ar draws Cymru o ran dulliau'r Byrddau Iechyd o ddarparu hyfforddiant ar lefelau uwch na Lefel 2.

Deallwn fod Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cefnogi datblygu hyfforddiant seiliedig ar gymhwysedd mewn diogelu, i'w ddefnyddio ar draws Cymru. Mae angen i'r hyfforddiant hwn gytuno â gofynion y gweithdrefnau newydd unwaith y cyhoeddir hwynt. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gweithio ar safonau ar gyfer hyfforddiant diogelu gyda'r argymhelliad bod Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru'n gweithio ar y cyd i ddatblygu hyfforddiant seiliedig ar gymhwysedd ar lefel genedlaethol, i'w ddarparu ar gyrsiau amlasiantaethol.

I ba raddau y mae'r Byrddau Iechyd wedi cymryd mwy o feddiant o Ddiogelu Oedolion ac yn gweithio fel partneriaid llawn ag asiantaethau eraill

Yn hanesyddol, cyfrifoldeb yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol oedd diogelu oedolion fel yr asiantaethau oedd yn gyfrifol am reoli diogelu oedolion ac yn atebol am effeithiolrwydd y rheoli hwnnw i Lywodraeth Cymru. Fel cyrff llawer mwy fel rheol, ond partneriaid llai yn y cyd-destun hwn, nid oedd gorfodaeth statudol ar y Byrddau Iechyd i ymgysylltu'n llawn â diogelu oedolion tan y pasiwyd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ychwaith nid oes cytgord amlwg rhwng dull clinigol y Byrddau Iechyd o ymdrin â phryderon a digwyddiadau, a dull yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol o ymdrin â diogelu oedolion, nac ychwaith ddull yr heddlu wrth arwain ymchwiliadau. Ymddengys hefyd na fu'n glir bob amser i'r Byrddau Iechyd bod diogelu oedolion yn cynnig gwerth ychwanegol i'w prosesau clinigol – fel defnyddio methodoleg Digwyddiadau Difrifol a Dadansoddi Gwraidd y Broblem - ac y gall materion diogelu oedolion gyflwyno craffu allanol a allai fod yn anghyffyrddus.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sy'n rhoi dyletswydd statudol am y tro cyntaf ar Fyrddau Iechyd i ddiogelu oedolion, wedi bod yn heriol i'r Byrddau. Fodd bynnag, mae cryn dystiolaeth o sut y mae'r Byrddau Iechyd wedi cymryd meddiant cynyddol o ddiogelu oedolion, gan gynnwys drwy arweinyddiaeth newydd, swyddi a hyfforddiant ychwanegol, gwaith polisi, systemau newydd o gasglu a dadansoddi data, cynlluniau strategol a chyfarfodydd rhwydwaith. Ymddengys bod statws statudol i ddiogelu oedolion wedi cael yr effaith fwriedig o godi ei statws mewn Byrddau Iechyd; mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adnabod bod cynnydd cyson yn cael ei wneud gan y Byrddau a bod angen i raglen arweinyddiaeth ar gyfer cynllunio olyniaeth fod yn rhan o'r agenda yn y dyfodol i sicrhau bod ei ddatblygiad yn parhau.

Dywedodd bob un Bwrdd Iechyd eu bod wedi ymrwymo i weithio ar y cyd ag asiantaethau diogelu partner. Mae'r rhai a ddewisodd ymuno â MASH neu sydd yn y broses o wneud hynny mewn sefyllfa arbennig o dda i ddangos hyn. Yn yr un modd, edrydd y Byrddau eu bod wedi dod yn aelodau ymroddedig o'r Byrddau Diogelu rhanbarthol newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf.

Ar y cyfan mae'n ymddangos bod y Byrddau Iechyd wedi cofleidio eu dyletswydd newydd o dan y Ddeddf i adrodd materion diogelu oedolion i'w partneriaid yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol (wele Adran 5 isod). Mae'r rhan fwyaf yn gallu adrodd ar faint o waith ymholiadau y maent yn ei wneud ar ran yr Adrannau hyn. Soniodd rai Byrddau Iechyd am y gwahanol ffyrdd y mae'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio, gan gyfeirio at wahanol lefelau o ofyn am ymholiadau a'r ffordd y rheolir yr achosion wedyn. Rhywbeth arall y cyfeiriodd y Byrddau ato oedd gwahanol ddiwylliannau'r heddlu a'r Gwasanaethau

Cymdeithasol a'r amseroedd rhwystredig o hir, yn enwedig gydag achosion lle'r oedd yr heddlu'n arwain arnynt.

Fel y dywedwn yn Adran 1 uchod, nid yw rhai Byrddau'n penodi unrhyw staff i gyflawni rôl y Rheolwr Arweiniol Dynodedig gan weithio'n agos â'u partneriaid yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ar bob achos yn ymwneud â chleifion ysbyty. Mae'r patrymau atgyfeirio'n awgrymu nad yw trosglwyddo achosion Bwrdd Iechyd i'w rheoli gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi effeithio ar barodrwydd y Byrddau Iechyd hyn i atgyfeirio achosion. Adroddwyd ymhellach fod y Byrddau Iechyd yn parhau i gyflawni ymchwiliadau ar y cyd lle mae gan achosion cymhleth elfennau cysylltiedig â gofal iechyd.

Er nad oes llawer o'r hyfforddiant a roddir i staff y Byrddau Iechyd, fel yr adroddir yn Adran 3 uchod, yn amlasiantaethol, cafwyd rhai enghreifftiau gan y Byrddau o gyrsiau hyfforddi ar y cyd, ar gyfer Ymchwilwyr a Rheolwyr Arweiniol Dynodedig. Mae digwyddiadau dysgu amlasiantaethol hefyd yn cael eu trefnu gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol.

Mae gwaith diogelu'r Byrddau Iechyd bellach yn cael ei gefnogi a'i gydgysylltu'n well drwy fod diogelu oedolion yn cael ei gynnwys yng nghylch gorchwyl Rhwydwaith GIG Diogelu Cymru, wedi'i gefnogi gan dîm diogelu cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, mae risg y gallai'r GIG ganfod ei atebion ei hun i rai o'r heriau a gyflwynir gan ddiogelu oedolion heb wneud hynny yng nghyd-destun amlasiantaethol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Un enghraifft o hyn yw'r Byrddau'n datblygu eu polisïau a'u gweithdrefnau interim eu hunain, yn annibynnol i'w Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Dywedodd y Byrddau Iechyd eu bod yn ymrwymedig i waith y Byrddau Rhanbarthol ac mae rhai o'r dogfennau interim, fel y ffurflenni atgyfeirio interim newydd, yn amlasiantaethol. Ar y llaw arall, dywedodd un Bwrdd Iechyd eu bod yn gweithio bellach gyda thair gwahanol ffurflen atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn fyr felly, ymddengys bod y Byrddau Iechyd wedi cofleidio'r agenda diogelu oedolion yn gynyddol mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac nad yw hynny wedi amharu ar eu gwaith ar y cyd ag asiantaethau partner. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb cenedlaethol o ran dull.

Cyfraddau adnabod ac atgyfeirio pobl hŷn mewn perygl, ac sy'n cwrdd â'r meini prawf diogelu, at y Gwasanaethau Cymdeithasol

Dywedodd y Byrddau Iechyd eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Cymdeithasol ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu. Credai'r rhan fwyaf fod y cynnydd, mae'n debyg, o ganlyniad i'r Ddeddf a'i fod wedi codi o ffactorau fel ymwybyddiaeth well o hyfforddiant staff a newid diwylliant o ran argraff y staff o ddiogelu oedolion. Fodd bynnag, nid oedd pob Bwrdd Iechyd yn argyhoeddedig bod y cynnydd o reidrwydd oherwydd y Ddeddf a chyfeiriodd un Bwrdd at gynnydd cyson mewn atgyfeiriadau'n dyddio'n ôl cyn y ddyletswydd newydd i adrodd. Meddyliai rhai y gallai'r Ddeddf "agor y llifddorau" i achosion diogelu oedolion gan fynegi rhyddhad na ddigwyddodd hyn.

Mae cyfraddau atgyfeirio cleifion ysbyty mewnol gan Fyrddau Iechyd wedi amrywio'n sylweddol yn 2016/17: roedd pedwar Bwrdd Iechyd wedi atgyfeirio llai na dau am bob 10,000 o bobl, roedd dau Fwrdd Iechyd wedi atgyfeirio rhwng 3-5 am bob 10,000 o bobl ac roedd un Bwrdd Iechyd wedi atgyfeirio 14 am bob 10,000 o bobl. Roedd y Bwrdd Iechyd oedd â'r gyfradd atgyfeirio uchaf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, hefyd wedi adrodd lefel uchel o hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu oedolion ar gyfer eu holl staff, cynnydd sylweddol mewn adnoddau diogelu oedolion, recriwtio gweithwyr cymdeithasol a nyrsys i swyddi diogelu a newid mewn diwylliant ac argraff o ddiogelu oedolion.

Dywedodd nifer o'r Byrddau Iechyd at arwyddocad y ffaith bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi newid y diffiniad gweithio o niwed o "niwed sylweddol" i "niwed posib" (h.y. os yw'r person mewn perygl o gael niwed) ac yn ystyried bod y newid hwn yn y "trothwy" ar gyfer diogelu oedolion efallai'n achosi'r cynnydd mewn atgyfeiriadau a'r ddyletswydd newydd i adrodd. Dywedasant fod angen diwygio'r canllawiau presennol ar drothwyon (canllawiau interim 2013) yng ngoleuni'r Ddeddf. Maent yn awr yn atgyfeirio achosion at ddiogelu oedolion a allai, o'r blaen, fod wedi derbyn sylw (dim ond) fel "Digwyddiad Sylweddol" o dan weithdrefnau mewnol y Byrddau Iechyd. Sefydlodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru weithgor a gynhyrchodd Siart Llif y GIG ar Ddiogelu Oedolion (a elwir yn Goeden Benderfyniadau), ond awgrymodd nifer o Fyrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru nad yw hwn yn addas i gynorthwyo Byrddau Iechyd gyda'r penderfyniad cymhleth ar drothwyon diogelu oedolion..

Cyfeiriodd rai Byrddau Iechyd fod y canllawiau cenedlaethol ar friwiau pwyso[5], a chytundeb i atgyfeirio pob claf gyda briwiau pwyso graddau 3 a 4 at ddiogelu oedolion, yn achosi cynnydd sylweddol yn eu cyfraddau atgyfeirio. Mae rhai Byrddau Iechyd yn sgrinio briwiau pwyso graddau 3 a 4 i weld a oedd modd eu hatal ac yn atgyfeirio dim ond y rhai a allai fod wedi cael eu hatal. Mae eraill yn dadlau bod sgrinio drwy Ddadansoddi Gwraidd yr Achos, sy'n gallu cymryd

wythnosau, yn oedi diogelu oedolion yn amhriodol, a'u bod yn atgyfeirio pob briw pwyso graddau 3 a 4. Gellid egluro'r amrywiadau yng nghyfraddau atgyfeirio'r Byrddau Iechyd yn rhannol gan wahanol drefniadau gweithio o'r fath.

Cyfeiriodd un Bwrdd Iechyd at y tensiwn gyda rheoli achosion o ran y ddyletswydd i adrodd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar barchu dewisiadau dioddefwyr gyda galluedd. Disgrifiwyd y cyfyng gyngor o ran atgyfeirio achos at ddiogelu oedolion neu beidio fel rhywbeth oedd yn cael ei waethygu'n sylweddol gan ymatebion gwahanol ac anghyson i atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn fyr felly, ymddengys bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi arwain at beth cynnydd mewn adrodd pryderon diogelu oedolion i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ond bod amrywiadau sylweddol mewn cyfraddau atgyfeirio. Gallai hyn, yn rhannol, egluro pam fod angen canllawiau newydd, cenedlaethol ar drothwyon diogelu oedolion. Gallai adlewyrchu gwahanol lefelau o ymgysylltu â'u dyletswyddau newydd gan y Byrddau. Nid yw'n bosib penderfynu pa mor effeithiol yw'r Byrddau Iechyd mewn adnabod cam-drin ac esgeuluso posib ac mewn atgyfeirio'r achosion hyn at ddiogelu oedolion, ond mae'r cynnydd mewn cyfraddau atgyfeirio'n awgrymu bod y Byrddau'n gwneud ymdrechion i gydymffurfio â'r ddyletswydd newydd.

I ba raddau a sut y mae'r Byrddau Iechyd yn 'gwneud ymholiadau' yng nghyd-destun diogelu ar gais yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac yna'n cyfrannu at waith achos diogelu

Ymddengys bod faint y mae'r Byrddau Iechyd wedi cofleidio eu dyletswydd newydd i wneud ymholiadau'n amrywio. Er bod rhai Byrddau wedi darparu canllawiau ysgrifenedig i'r staff ar wneud ymholiadau gydag amseroedd clir, gan ddisgrifio beth sydd angen ei wneud i "sefydlu'r ffeithiau", a hefyd wedi creu ffurflenni cofnodi newydd yn cynnwys cronolegau (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), ni ddywedodd unrhyw Fwrdd Iechyd fod ganddynt hyfforddiant penodol i helpu staff i wneud y gwaith hwn. Mewn rhai Byrddau Iechyd, aelodau o'r timau diogelu pencadlys sy'n gwneud ymholiadau tra bod eraill yn dibynnu ar nyrsys ward wedi'u hyfforddi i Lefel 3.

Ni allai ddau o'r Byrddau Iechyd ddarparu data ar wneud ymholiadau ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol; eglurodd un nad yw'r data'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Dylid nodi na ystyriwyd ei fod yn wybodaeth y gallai fod ei angen ar y Bwrdd Iechyd ei hun.

O'r Byrddau Iechyd a adroddodd ar lefel eu gweithgarwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf, dangosodd bob un ohonynt gynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ganddynt. Ar gyfer 2016/17, roedd y Byrddau wedi adrodd lefelau gweithgarwch tra gwahanol, yn cyfateb i raddau i'w cyfraddau adrodd gwahanol. Mae ystod sylweddol o ran nifer y ceisiadau: roedd dau Fwrdd Iechyd wedi adrodd 14 a 11 o geisiadau am bob 10,000 o bobl ac roedd dau Fwrdd arall wedi adrodd 0.9 a 0.7 o geisiadau am bob 10,000 o bobl. Mae gan rai Byrddau Iechyd gyfraddau ceisiadau tra gwahanol i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu dalgylchoedd.

Yn fyr felly, mae'r Byrddau'n gwneud ymholiadau ar gais yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae nifer y ceisiadau ynghylch cleifion ysbyty mewnol yn amrywio'n fawr. Fel y nodwn yn Adran 5, amrywio hefyd y mae cyfraddau atgyfeirio'r Byrddau. Mae rhai Byrddau Iechyd wedi cynhyrchu canllawiau a dogfennau ysgrifenedig defnyddiol i'w staff, a gallai'r rhai na wnaeth hynny elwa o addasu a defnyddio deunyddiau'r lleill. Dylai Byrddau nad ydynt wedi darparu hyfforddiant i gefnogi eu staff gyda'r ddyletswydd newydd hon drefnu hyn.

A yw dioddefwyr cam-drin ac esgeuluso honedig cael eu trin fel partneriaid llawn a chyfartal yn y broses ddiogelu ac yn cael eu galluogi i ddefnyddio eiriolwyr?

Cleifion a'u teuluoedd

Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda chleifion a'u teuluoedd yn un o gonglfeini'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac unrhyw bolisi a ddatblygir o gwmpas gofal iechyd darbodus. Y canllawiau gweithdrefnol presennol sydd ar gael yng nghyswllt diogelu oedolion yw Canllawiau Interim 2013. Mae'r rhain yn nodi mai cyfrifoldeb y Rheolwr Arweiniol Dynodedig ym mhob achos yw sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael eu hysbysu'n drylwyr a'u cynnwys fel partneriaid cyfartal drwy gydol y broses.

Mae'r Byrddau Iechyd a benododd staff i rôl y Rheolwr Arweiniol Dynodedig yn cydnabod mai'r Rheolwyr hyn sy'n gyfrifol am hyn a dywedodd un o'r Byrddau Iechyd a gomisiynodd ei hyfforddiant Rheolwyr Arweiniol Dynodedig ei hun fod y rhan yma o rôl y Rheolwr Arweiniol Dynodedig yn cael ei phwysleisio ar y cwrs hyfforddiant (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys). Fodd bynnag, disgrifiodd un Bwrdd Iechyd y pwysau sydd ar eu Rheolwyr Arweiniol Dynodedig, sef uwch-nyrsys prysur y mae rôl y Rheolwr Arweiniol Dynodedig yn gyfrifoldeb ychwanegol ac anodd iddynt, gan awgrymu nad ydynt yn ffyddiog bod eu Rheolwyr Arweiniol Dynodedig yn gyson ac effeithiol gyda sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn drwy gydol y broses diogelu oedolion. Disgrifiwyd eu trefniadau fel rhai nad oeddent yn ffurfiol na'n cael eu cofnodi.

Disgrifiodd un Bwrdd Iechyd ei fod wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o geisio cynnwys cleifion a'u teuluoedd, a dywedodd un arall ei fod wedi cychwyn archwilio rhan cleifion a theuluoedd ym mhob cam o'r broses i oleuo ei waith yn cefnogi a mentora ei Reolwyr Arweiniol Dynodedig, er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth a'u heffeithiolrwydd yn yr agwedd allweddol hon o'u gwaith.

Awgrymodd un o'r Byrddau Iechyd nad oes ganddo ei Reolwyr Arweiniol Dynodedig ei hun mai cyfrifoldeb yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yw rheoli'r gwaith hwn. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod gan y Bwrdd Iechyd hwn drefniadau i sicrhau ei hun bod eu cleifion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn gan Reolwyr Arweiniol Dynodedig yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ogystal â rôl y Rheolwr Arweiniol Dynodedig, cyfeiriodd y Byrddau at rai pethau y maent yn ceisio ei wneud ar hyn o bryd i gynnwys cleifion a'u teuluoedd mewn diogelu oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys cynadleddau achos gyda chleifion a theuluoedd i gwblhau'r broses diogelu oedolion. Fodd bynnag, roedd hyn yn un o ddisgwyliadau gweithdrefnau 2013.

Dywedodd un Bwrdd Iechyd nad yw eu prosesau ar gyfer delio gyda theuluoedd, cwynion a materion llywodraethu clinigol wedi newid ers gweithredu'r Ddeddf. Mae hyn yn awgrymu nad oes ganddynt unrhyw beth i'w wella. Fodd bynnag, nid oedd pob Bwrdd o'r un farn. Er nad yn benodol i ddiogelu oedolion, cyfeiriodd y Byrddau Iechyd at sawl blaengaredd a ddechreuwyd yn ddiweddar sydd, yn eu barn hwy, yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau'r Ddeddf o geisio cynnwys cleifion a'u teuluoedd, er enghraifft sgyrsiau Beth sy'n Bwysig i Mi[6], gweithredu Gweithio i Wella[7], y gwasanaeth PALS[8], cyflwyno'r prawf Ffrindiau a Theulu, defnyddio offeryn 'Dyma fi'[9] y Gymdeithas Alzheimer, ymweld agored ar draws yr holl wardiau, Pencampwyr Diogelwch cleifion ar bob ward cleifion mewnol, arolygon profiad cleifion blynyddol a pherson cyswllt yn cael ei benodi ar gyfer pob Digwyddiad Difrifol (yn wahanol i ddiogelu oedolion).

Dywedodd cydweithwyr o'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod yn ymwybodol bod arferion y Byrddau Iechyd yn gwella ond cyfeiriwyd hefyd at achosion diweddar lle'r oedd diwylliant hŷn ac amhriodol yn dal i weithredu yn ystod y broses diogelu oedolion lle nad oedd cleifion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys. Disgrifiwyd enghreifftiau lle mae'r Byrddau Iechyd yn parhau i fod yn gyndyn o ymddiheuro wrth glaf neu deulu hyd yn oed lle'r oedd ymchwiliad diogelu oedolion wedi cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd ar fai. Mae'r dystiolaeth yma'n adlewyrchu profiad presennol gweithwyr achos y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Eiriolaeth

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnwys gofyniad bod cleifion sydd angen eu diogelu'n cael cynnig cyfle i dderbyn cefnogaeth gan eiriolwr; mae'r Canllawiau ar Adran 10 yn y Ddeddf[10] yn egluro:

Rhaid i'r awdurdod lleol sydd mewn partneriaeth â'r unigolyn ystyried a dod i gasgliad ar drefniadau i benodi eiriolwr proffesiynol annibynnol i gefnogi a chynrychioli unigolion sy'n destun ymholiadau diogelu o dan Adran 126 y Ddeddf. Os oes angen dechrau ymholiadau diogelu ar frys, gellir dechrau'r ymholiadau cyn y penodir eiriolwr ond rhaid penodi un cyn gynted â phosib. **Mae angen i bob asiantaeth ddiogelu wybod sut i gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth a beth yw eu rôl** (pwyslais). Mae'n hollbwysig yn y maes hynod sensitif hwn bod yr unigolyn yn cael ei gefnogi drwy beth allai deimlo fel proses eithaf brawychus a allai arwain at benderfyniadau anodd iawn. Gallai unigolyn y credir y cawsant eu cam-drin neu esgeuluso deimlo mor ddigalon, ofnus, ypset neu gymaint o embaras fel bod eiriolwr annibynnol a ddarperir o dan y Ddeddf i'w helpu i fynegi eu barn, dymuniadau a'u teimladau, a chyfranogi'n llawn, yn gwbl greiddiol.

Dywedodd y Byrddau Iechyd eu bod yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau i benodi Eiriolwyr IMCA ac IMHA, ond nid oedd yn amlwg eu bod wedi cydnabod y gofyniad yn y Ddeddf i sicrhau bod Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ar gael pan fydd claf yn destun ymholiadau diogelu y gofynnwyd iddynt eu cyflawni gan Adran

Gwasanaethau Cymdeithasol. Os nad yw'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda'r claf, dylai'r ymarferwr iechyd fod yn gallu adnabod achosion lle byddai'r claf yn elwa o eiriolaeth a dylent fod yn gallu atgyfeirio'r claf at Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

Ymddengys nad yw'r Byrddau Iechyd yn casglu unrhyw ddata ar eu hatgyfeiriadau at Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol sy'n golygu na fyddant yn gallu sicrhau eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r agwedd hon ar y Ddeddf. Nid yw'r cyfrifoldebau newydd o ran eiriolaeth, a'r cyfleoedd a greir gan y Ddeddf i gyd-gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth er enghraifft, yn ymddangos i fod wedi cael eu cofleidio gan rai Byrddau Iechyd hyd yma. Fodd bynnag, roedd dau Fwrdd Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) yn gallu darparu gwybodaeth anecdotaidd am atgyfeiriadau at Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol. Mae Bwrdd Iechyd arall (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys) wedi ychwanegu eiriolaeth fel maes newydd yn ei ffurflen atgyfeirio fel bod atgyfeiriwyr yn cael eu procio i ystyried eiriolaeth a sicrhau bod cyngor cyfreithiol da ar gael i ystyried defnyddio eiriolwr. Mae gan Fwrdd arall (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) hyfforddiant gorfodol sy'n cynnwys eiriolaeth ynghyd â hyfforddiant diweddaru rheolaidd, diwrnodau ymwybyddiaeth ac e-byst a thrydar byd-eang i ddiweddaru staff ar yr angen i adnabod anghenion eiriolaeth.

Yn fyr felly, mae tystiolaeth i awgrymu bod rhai Byrddau Iechyd wedi cydnabod bod cynnwys cleifion a'u teuluoedd yn briodol ac yn eu cefnogi i ddefnyddio eiriolwyr yn y broses diogelu oedolion. Fodd bynnag, ymddengys bod diwylliant amddiffynnol ac amhriodol yn ei le o hyd weithiau. Ar ben hynny, nid yw rhai Byrddau Iechyd yn ymddangos i fod wedi cydnabod eu rôl o ran Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol, nid oes yr un ohonynt yn cofnodi cyfraddau atgyfeirio at Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol a'r un chwaith wedi ystyried cyd-gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth i leihau'r dull anunedig presennol.

Pa drefniadau sydd gan y Byrddau Iechyd i ddysgu o achosion unigol, adolygiadau achos ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac i ba raddau y mae hyn yn goleuo ymarfer i'r dyfodol, h.y. faint o ddiwylliant dysgu sydd yn ei le

Cyfeiriodd y Byrddau at ystod o ffyrdd a ddefnyddir ganddynt i ddysgu o achosion unigol er mwyn gallu rheoli risg yn gyffredinol, er enghraifft drwy greu Timau Diogelu newydd a rhoi mwy o adnoddau i ddiogelu oedolion, sy'n ymddangos i fod wedi cael effaith sylweddol. Mae'r Timau'n gyfrifol am fwrw trosolwg ar achosion unigol ac am ymchwilio nid yn unig i berfformiad effeithiol pob achos ond hefyd i unrhyw oblygiadau ehangach a / neu risgiau cyffredinol. Roedd dwy enghraifft yn cynnwys adnabod gweithdrefn amhriodol a gwirio ai digwyddiad untro'n unig neu rywbeth mwy difrifol oedd hyn, ac adnabod ymddygiad staff amhriodol a gwirio ai aelod o staff drwg oedd y bai neu broblem diwylliant ar y ward i gyd.

Yn ogystal â chyfarfodydd adolygu achosion rheolaidd y Timau Diogelu a ddisgrifiwyd gan y Byrddau Iechyd, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd weithdrefnau gweithredol safonol i ymateb os cafwyd dau ddigwyddiad diogelu mewn chwe mis, neu dri digwyddiad mewn 12 mis.

Cyfeiriodd y Byrddau yn eu hymateb i'r adolygiad hwn at nifer o achosion diogelu proffil uchel a ddenodd sylw'r cyfryngau cenedlaethol gan fynd i gryn drafferth i ddangos eu bod wedi ceisio dysgu a gweithredu ar ganfyddiadau'r achosion hyn. Mae Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru Gyfan, wedi'i hwyluso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi ehangu ei gylch gwaith i gynnwys diogelu oedolion yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dywedodd y Byrddau Iechyd fod hyn, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd y Penaethiaid Diogelu, wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae dysgu bellach yn cael ei rannu ar draws Cymru. Awgrymwyd hefyd y bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn chwarae rôl yn cydgrynhoi a lledaenu canfyddiadau Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Hyd yma, ychydig iawn o Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APR) sy'n ymddangos i fod wedi cael eu cwblhau neu eu dechrau'n ymwneud â gofal i gleifion mewnol hŷn. Gallai hyn newid yn sgîl y canllawiau a'r meini prawf newydd ar gyfer adolygiadau APR o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fodd bynnag, dywedodd rai Byrddau eu bod yn cyfrannu'n aml at Adolygiadau Dynladdiadau Domestig a'r dysgu hynod berthnasol o'r rhain, gwersi sydd wedi'u rhannu a'u rhaeadru.

Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o ffyrdd y mae dysgu am ddiogelu oedolion erbyn hyn yn cael ei rannu rhwng y Byrddau, gyda threfniadau i raeadru dysgu a hefyd gyda grwpiau a digwyddiadau amlddisgyblaethol: Cyfarfodydd Paneli Timau Diogelu Oedolion i adolygu a dysgu o'r achosion presennol ynghyd ag arbenigwyr

gwâdd, cynadleddau rhanbarthol, rhwydweithiau diogelu lleol yn defnyddio achosion di-enw diweddar, systemau adborth i hyfforddwyr ar achosion diweddar er mwyn sicrhau bod hyfforddiant diogelu oedolion yn cael ei ddiweddaru, diweddaru tudalennau mewnrwyd yn rheolaidd, cylchlythyrau chwarterol ar ddiogelu oedolion, e-byst byd-eang a hanesion cleifion.

I ba raddau y mae'r Byrddau Iechyd yn cyfrannu at gydnabod ac atal cam-drin ac esgeuluso, a'u trefniadau sicrhau ansawdd

Mae'r adolygiad hwn wedi nodi bod gan bob un o'r Byrddau Iechyd y casgliad disgwyliedig o bolisïau, gweithdrefnau a phrotocolau fel canllaw i'w staff mewn sefyllfaoedd lle gallai fod risg arbennig o gam-drin neu esgeulustod, gan gynnwys atal a rheoli methu dal dŵr a difrod o friwiau pwyso, rheoli meddyginiaeth, atal a rheoli codymau, rheoli maeth a hylif yn y corff, gofal dementia, ymwybyddiaeth o alluedd meddyliol a ffrwyno. Mae cryn waith wedi'i wneud yng Nghymru i adnabod pryd y dylid atgyfeirio briwiau pwyso at ddiogelu oedolion. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau'n nodi ar ba bwynt y dylid atgyfeirio at ddiogelu oedolion.

Fodd bynnag, fel arfer nid yw'r polisïau a'r gweithdrefnau eraill a restrir uchod yn codi'r posibilrwydd y gallai fod camau esgeulus neu fwriadol wedi cael eu cymryd a ddylai ysgogi atgyfeirio at ddiogelu oedolion a hyd yn oed ymchwiliad troseddol. Mae hyn yn hepgoriad pwysig sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith nad yw diogelu oedolion eto wedi gwreiddio fel rhan annatod o ddiwylliant ac arferion y Byrddau Iechyd.

Er nad oedd diogelu oedolion wedi'i adnabod fel canlyniad posib mewn polisïau a gweithdrefnau, roedd rhai Byrddau wedi darparu rhestri o leoliadau a gweithgareddau a gofnodwyd i fod yn cyflwyno'r risg fwyaf, er enghraifft codymau, methu â rhyddhau cleifion mewn pryd, difrod o friwiau pwyso, arferion nyrsys asiantaeth ac agweddau staff ar y ward.

Yn hanesyddol, ymddengys bod y Byrddau wedi nodi mai'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n arwain ar ddiogelu oedolion, gan gynnwys casglu ac adrodd data diogelu oedolion manwl i Lywodraeth Cymru, ac felly heb gasglu na defnyddio eu data eu hunain. Fel yr adroddwn uchod, efallai nad yw'r diwylliant hwn wedi newid yn llwyr oherwydd nid yw rhai Byrddau Iechyd yn cofnodi lefel eu gweithgarwch o ran nifer y ceisiadau a faint o ymholiadau a gyflawnir, na nifer yr atgyfeiriadau at Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol. Fodd bynnag, ar y cyfan ymddengys bod newid o ddifrif wedi bod yn y ffordd y mae'r Byrddau Iechyd yn casglu a defnyddio eu data eu hunain i ddysgu, deall a rheoli risg ac i wella eu harferion. Roedd y Byrddau'n gallu rhoi enghreifftiau o flaengareddau diweddar iawn gan gynnwys nodweddion fel hyb gwybodaeth strategol gyda dadansoddwyr, a system ddangosfwrdd i gasglu, rhannu a dadansoddi ystod o ddata lefel ward yn barhaus ynghyd â mynediad at eu hadroddiadau dangosfwrdd a chynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer wardiau.

Y cam creiddiol nesaf sydd angen ei gymryd yw'r gwaith sydd mewn golwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu Offeryn Sicrhau Ansawdd a Gwella Diogelu (yn lle Safon Iechyd a Gofal 2.7[11]) i ddarparu un offeryn casglu data i'r Byrddau Iechyd, ynghyd ag un fframwaith adrodd cyson ar gyfer Cymru, fel bo'r gwaith

meincnodi a thracio gwelliannau hanfodol hwn yn cael ei wneud.

Mae yna hefyd enghreifftiau calonogol lle mae'r Byrddau Iechyd yn "meddwl am ddiogelu" yn gynyddol. Er bod y rhain ar eu pen eu hunain yn annigonol i wthio newid diwylliant, mae blaengareddau rhai o'r Byrddau'n cynnig enghreifftiau ymarfer defnyddiol i Fyrddau eraill, gan gynnwys:

- Dilyn gweithdrefnau gweithredol safonol i ymateb i ddigwyddiadau diogelu oedolion Lefel 2 a 3 sy'n digwydd ar yr un ward o fewn 6 a 12 mis
- Cyd-archwilio achosion diogelu oedolion gydag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol partner
- Methodoleg 'dysgu o achosion' drwy'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol
- Sesiynau adolygu grwpiau Diogelu Oedolion chwarterol yn defnyddio tracwyr, i ganfod themâu a phatrymau
- Grwpiau Dysgu a Gwella Safonau Gofal Cleifion i ysgogi gwaith monitro profiadau cleifion thematig
- Archwiliadau clinigol ac asesiadau risg ar y wardiau, cyn eu targedu i dderbyn cymorth ychwanegol
- Uwch-nyrsys yn cyflawni archwiliadau tebyg i rai HIW o wardiau ei gilydd
- Gwylio Cleifion: Monitro 1:1 o gleifion wedi eu hadnabod i fod mewn perygl
- Cylchrestr gofal diogel gyda 3 archwiliad y dydd
- Defnyddio cynlluniau diogelu cyffredinol ar lefel ward
- Sesiynau briffio wardiau ar ddiogelu
- Goruchwylio staff targed yng nghyswllt diogelu
- Adolygiadau amlasiantaethol gan gymheiriaid o waith diogelu
- Mwy o ddefnydd o archwiliadau mewnol gyda, a heb rybudd, mewn un Bwrdd wedi'u cefnogi gan diwtoriaid coleg nyrsio
- Grwpiau Safonau Gofal Cleifion yn defnyddio data profiad cleifion
- Archwiliad Pryderon llawn a Dadansoddiad o Wraidd y Broblem ar bob codwm
- Fferyllwyr yn cyflawni adolygiadau targed o feddyginiaeth ac yn adolygu defnydd o feddyginiaethau lluosog a chyffuriau gwrth-seicotig
- Patrymau adolygiadau grŵp o Ddadansoddi Gwraidd y Broblem o atgyfeiriadau briwiau pwyso
- Polisi chwythu'r chwiban sy'n dechrau gyda: "Ymrwymwn i gefnogi rhai sy'n codi pryderon" (roedd polisïau rhai Byrddau Iechyd eraill yn gymharol wan ar hyn)

- Llwybr chwythu'r chwiban i nyrs-fyfyrwyr
- Pwyslais i staff ar eu dyletswydd i fod yn onest, a hyfforddiant gloywi ar eu codau ymddygiad proffesiynol
- Pencampwyr ar gyfer Diogelwch Cleifion, gofal dementia, atal codymau a difrod briwiau pwysau
- Dull 'mynd o gwmpas' o'r 'bwrdd i'r llawr' gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd ac aelodau annibynnol o'r bwrdd.

Yn fyr felly, er bod angen gwreiddio anghenion diogelu oedolion yn gliriach drwy'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu gwaith staff, roedd y Byrddau Iechyd yn gallu disgrifio sut yr oedden nhw wedi gweithio i ddod yn glyfrach drwy gasglu, dadansoddi a defnyddio data gan gynnig ystod o enghreifftiau o ddulliau a blaengareddau penodol i hyrwyddo gwelliannau parhaus. Disgrifiwyd strwythurau adrodd o'r gwaelod i fyny, strwythurau (eithaf) newydd gyda Phenaethiaid Diogelu a thimau diogelu'n darparu arweinyddiaeth ynghyd â'r Byrddau eu hunain yn cymryd meddiant o ddiogelu oedolion.

Atodiad 1: Fframwaith Dadansoddi

MATER ALLWEDDOL 1: BILlau YN DANGOS YMRWYMIAD I DDIOGELU OEDOLION

Y meysydd ar gyfer eu gwerthuso yw:

- **Polisïau** priodol, sy'n darparu eglurder ynglŷn â dyletswyddau a chyfrifoldebau
- Ymrwymiad yr **adnoddau staff** sy'n ddigonol i gyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau
- **Gweithdrefnau** priodol, sy'n darparu eglurder ynglŷn â sut y bydd yn rhaid cyflawni diogelu oedolion mewn cyd-destun amlasiantaeth
- **Hyfforddiant** staff sy'n ymdrin ag anghenion hyfforddi holl staff ac aelodau Bwrdd y BILlau, o gofio eu dyletswyddau priodol, ac sy'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd

Polisïau priodol, sy'n darparu eglurder ynglŷn â dyletswyddau a chyfrifoldebau **(Cwestiwn 2)**

Y meini prawf allweddol yw:

- Mae'r BILl wedi ymrwymo i'r polisïau a osodwyd yn y Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus Rhag Camdriniaeth (Tachwedd 2010, a ddiweddarwyd 2013) i'r hyn y mae'r holl BILlau wedi ymrwymo iddyn nhw **neu**
- Polisïau ysgrifenedig cyfwerth sy'n dangos ymrwymiad i'r egwyddorion a'r gwerthoedd yn y ddogfen uchod **a**
- Cydnabyddiaeth ysgrifenedig atodol o anghenion y Ddeddf GC&Ll

Ymrwymiad yr **adnoddau staff** sy'n ddigonol i gyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau **(Cwestiwn 1)**

Y meini prawf allweddol yw:

- Rheolwr arweiniol sy'n arbenigo mewn diogelu oedolion a chyda chyfrifoldeb cyffredinol amdano
- Digon o staff arbenigol gyda sgiliau priodol i ymgymryd ag ymholiadau diogelu oedolion a chyfrannu tuag at ymchwiliadau diogelu oedolion fel y gofynnir gan AGCau mewn modd amserol.

Gweithdrefnau priodol, sy'n darparu eglurder ynglŷn â sut y mae'n rhaid diogelu oedolion mewn cyd-destun amlasiantaeth **(Cwestiwn 2)**

Y meini prawf allweddol yw:

- Mae BILl wedi ymrwymo i'r gweithdrefnau a osodwyd yn y Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus Rhag Camdriniaeth (Tachwedd 2010, a ddiweddarwyd 2013) neu
- Gweithdrefnau ysgrifenedig cyfwerth sy'n dangos ymrwymiad i'r fframwaith a'r prosesau amlasiantaeth a welir yn yr uchod a
- Cydnabyddiaeth ysgrifenedig atodol o anghenion y Ddeddf GC a Ll

Hyfforddiant staff sy'n ymdrin ag anghenion hyfforddi holl staff y BILl, o gofio eu dyletswyddau priodol, ac sy'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd **(Cwestiwn 3)**

Y meini prawf allweddol yw:

- Hyfforddiant ymwybyddiaeth a ddarparwyd ar gyfer holl staff y BILl ac aelodau'r Bwrdd a oedd yn eu galluogi nhw i gydnabod camdriniaeth ac esgeulustod posibl a gwybod sut y mae'n rhaid adrodd am hyn, ac sy'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd (e.e. bob tair blynedd)
- Darparwyd a diweddarwyd yr hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff BILl sydd â chyfrifoldebau diogelu oedolion penodol, yn cynnwys y rheolwr arweiniol, staff sy'n ymgymryd ag ymholiadau ac ymchwiliadau ar y cyd, rheolwyr wardiau, rheolwyr arbenigeddau, e.e. ThGau, a staff eraill sydd angen gwybodaeth benodol e.e. staff AD.

MATER ALLWEDDOL 2: EFFEITHIOLRWYDD Y BILlau WRTH ADNABOD AC ADRODD AM GAMDRINIAETH AC ESGEULUSTOD POSIBL MEWN LLEOLIADAU YSBYTY

Y meysydd ar gyfer eu gwerthuso yw:

- Trefniadau newydd a gyflwynwyd gan y BILl mewn ymateb i'w dyletswyddau o dan Ddeddf GCaLl
- Defnydd priodol a chyson o feini prawf trothwyon
- Adnabod ac adrodd ynglŷn â'r holl fathau o gamdriniaeth ac esgeulustod posibl
- Defnyddio gweithdrefnau diogelu oedolion yn ychwanegol at weithdrefnau eraill (e.e. cwynion) pan ellir / ddylid defnyddio'r ddau

Unrhyw **drefniadau newydd** a gyflwynwyd gan y BILl mewn ymateb i'w dyletswyddau o dan Ddeddf GC a Ll **(Cwestiwn 4)**

Y meini prawf allweddol yw:

- Datganiad polisi newydd gan y BILl
- Gweithdrefn ysgrifenedig newydd gan y BILl
- Newidiadau mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau staff

Defnydd priodol a chyson o **feini prawf trothwyon (Cwestiwn 4)**

Y meini prawf allweddol:

- Mae'r BILl yn defnyddio canllawiau trothwy o Bolisi a Gweithdrefnau Interim Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus Rhag Camdriniaeth neu'i feini prawf ysgrifenedig cyfwerth ei hun ynglŷn â throthwyon
- Cyfeirir at y rhain mewn bob hyfforddiant ymwybyddiaeth ac maen nhw yn cael eu defnyddio yn gyson gan staff
- Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos lefelau o atgyfeirio gan BILlau

Adnabod ac adrodd ynglŷn â **phob math** o gamdriniaeth ac esgeulustod

Y meini prawf allweddol:

- Gall ystadegau Llywodraeth Cymru fod ar gael sy'n dangos atgyfeiriad gan BILlau fesul math o gamdriniaeth ac esgeulustod

Defnyddio gweithdrefnau diogelu oedolion yn ychwanegol at weithdrefnau eraill (e.e. cwynion) pan ellir a dylid ysgogi'r ddau

Y meini prawf allweddol yw:

- Mae gan y BILl system i wirio a ddylai cwynion a digwyddiadau clinigol ysgogi atgyfeiriadau diogelu oedolion a hefyd a ydyn nhw'n gwneud hynny
- Mae gan y BILl eglurder mewn polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n nodi sut y dylid dilyn gweithdrefnau cyfochrog (e.e. adolygiadau dynladdiad)

MATER ALLWEDDOL 3: EFFEITHIOLRWYDD Y BILlau WRTH WNEUD YMHOLIADAU YNGLŶN Â CHAMDRINIAETH AC ESGEULUSTOD POSIBL MEWN LLEOLIADAU YSBYTY

Y meysydd ar gyfer eu gwerthuso yw:

- Y graddau y mae'r BILl yn ymgymryd ag ymholiadau ar ran AGCau
- Sut mae'r BILl yn sicrhau annibyniaeth y staff sy'n ymgymryd ag ymholiadau
- Unrhyw newidiadau yn lefel a natur y gwaith ar y cyd gydag asiantaethau eraill

Y **graddau** y mae'r BILl yn ymgymryd ag ymholiadau ar ran AGCau **(Cwestiwn 5)**

Y maen prawf allweddol:

- Gall patrymau gweithgaredd a adroddwyd gan y BILl adlewyrchu lefel hyder yr AGCau yn annibyniaeth staff y BILl a ddynodwyd i wneud ymholiadau

Sut mae'r BILl yn sicrhau **annibyniaeth** y staff sy'n ymgymryd ag ymholiadau **(Cwestiynau 5 ac 1)**

Y maen prawf allweddol:

- Trefniadau a gallu'r BILl i benodi ymchwilwyr hyfforddedig ac annibynnol ymysg ei staff

Unrhyw newidiadau yn lefel a natur **y gwaith ar y cyd** gydag asiantaethau eraill **(Cwestinyau 5 ac 1)**

Y maen prawf allweddol:

- Mae ymholiadau ac ymchwiliadau ar y cyd wedi cael eu hadnabod fel y sefyllfa ddelfrydol mewn diogelu oedolion. Y graddau y mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn ymarfer ar hyn o bryd.

MATER ALLWEDDOL 4: EFFEITHIOLRWYDD Y BILlau i GYFATHREBU AC YMGYSYLLTU Â DIODDEFWYR CAMDRINIAETH AC ESGEULUSTOD A'U TEULUOEDD

Y meysydd ar gyfer eu gwerthuso yw:

- Ymatebion gan y BILl i'r argymhellion yn Ymddiried mewn Gofal, fel canllawiau y mae'r BILl wedi'u rhoi i staff mewn perthynas â gwrando, cofnodi ac ymateb i bryderon dioddefwyr a'u teuluoedd
- Y graddau y mae'r gwasanaethau eirioli yn cael eu hargymell ac yn cael eu defnyddio gan ddioddefwyr a'u teuluoedd

- Y graddau y mae camdriniaeth ac esgeulustod posibl yn cael eu cydnabod a'u hadrodd gan y BILl (mater allweddol 2 uchod) "o leiaf cydnabuwyd y gamdriniaeth"
- Y graddau y mae'r BILl yn adnabod y posibilrwydd ar gyfer risgiau generig o achosion unigol (mater allweddol 5, isod) "o leiaf, gall helpu eraill"

Ymatebion gan y BILl i'r argymhellion yn **Ymddiried mewn Gofal**, fel canllawiau y mae'r BILl wedi'u rhoi i staff mewn perthynas â gwrando, cofnodi ac ymateb i bryderon dioddefwyr a'u teuluoedd **(Cwestiynau 7 ac 8)**

Y meini prawf allweddol:

- Dylai rhai BILlau fod yn gallu darparu eu hymatebion ysgrifenedig i Ymddiried mewn Gofal
- Gall BILlau fod wedi darparu canllawiau
- Gall fod gan BILlau dystiolaeth eu bod yn cydymffurfio

Y graddau y mae'r gwasanaethau eirioli yn cael eu hargymell ac yn cael eu defnyddio gan ddioddefwyr a'u teuluoedd

Y meini prawf allweddol:

- Polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig yn annog y defnydd o wasanaethau eirioli a hyrwyddo mynediad atyn nhw
- Tystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio

MATER ALLWEDDOL 5: EFFEITHIOLRWYDD Y BILlau I GYDNABOD Y POSIBILRWYDD O RISGIAU GENERIG ODDI WRTH ACHOSION UNIGOL A'R DEFNYDD O REOLI RISG

Y meysydd ar gyfer eu gwerthuso yw:

- Polisïau a gweithdrefnau ynglŷn â rheoli risg (mater allweddol 1 uchod)
- Adnabyddiaeth gynnar ynglŷn â risgiau posibl

Polisïau a gweithdrefnau **rheoli risg (Cwestiwn 1)**

Y maen prawf allweddol yw:

Mae gan y BILl bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ynglŷn â rheoli risg mewn meysydd allweddol lle gwyddys bod esgeulustod wedi digwydd mewn lleoliadau ysbytai, yn cynnwys:

- Gofal dementia
- Maethiad a darparu diodydd
- Atal cwympiadau
- Rheoli meddyginiaethau
- Rheoli anymataliaeth
- Atal briwiau pwyso

Adnabyddiaeth gynnar ynglŷn â risgiau posibl

Y maen prawf allweddol:

- Mae gan y BILl system ar gyfer tynnu sylw at risgiau generig o achosion unigol

MATER ALLWEDDOL 6: GALLU'R BILlau I DDYSGU ODDI WRTH DDIOGELU OEDOLION, LLEDAENU DYSGU A NEWID DIWYLLIANNAU YN Y WARDIAU

Y meysydd ar gyfer eu gwerthuso yw:

- Prosesau sicrwydd ansawdd ac archwilio cadarn
- Ymrwymiad i annog a chefnogi chwythwyr chwiban
- Dysgu o achosion unigol ac oddi wrth ymchwiliadau ar raddfa fawr
- Dysgu oddi wrth Adolygiadau Ymarfer Oedolion

Prosesau sicrwydd ansawdd ac archwilio cadarn **(Cwestiwn 6)**

Y meini prawf allweddol:

- Mae adroddiadau **SA** ac archwilio ynglŷn â diogelu oedolion yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd i Fwrdd y BILl
- Mae tystiolaeth o **gamau gweithredu** gan y BILl mewn ymateb i'r adroddiadau

Ymrwymiad i annog a chefnogi **chwythwyr chwiban (Cwestiwn 8)**

Y meini prawf allweddol:

- Mae polisi chwythwyr chwiban yn bodoli sy'n annog adrodd yn agored
- Mae tystiolaeth fod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi os ydyn nhw yn adrodd am bryderon

Dysgu oddi wrth achosion unigol ac oddi wrth ymchwiliadau ar raddfa fawr **(Cwestiynau 6 ac 8)**

Y meini prawf allweddol:

- Mae tystiolaeth o rannu dysgu fel mewn seminarau staff
- Mae trefniadau i ddiweddaru hyfforddwyr ynglŷn â dysgu o achosion ac mae hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer eu hyfforddiant

Dysgu oddi wrth **Adolygiadau Ymarfer Oedolion (Cwestiwn 8)**

Y Meini Prawf allweddol:

- Mae'r BILl wedi comisiynu AYOau ac mae tystiolaeth o gamau gweithredu sy'n gymesur ag argymhellion yr Adolygiad.
- Mae AYOau o rannau eraill o Gymru yn cael eu lledaenu ac mae trefniadau wedi cael eu gwneud i ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd.

Atodiad 2: Llythyr a gylchredwyd ymysg Byrddau Iechyd



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Enw
Llinell 1 y Cyfeiriad
Llinell 2 y Cyfeiriad
Llinell 3 y Cyfeiriad
Cod post

30 Mai 2017

Annwyl ENW,

Adolygiad o'r camau gweithredu y mae Byrddau Iechyd yn eu cymryd er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl hŷn mewn ysbytai yn ddiogel rhag niwed yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fel y gwyddoch, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd newydd ar Fyrddau Iechyd i hysbysu Gwasanaethau Cymdeithasol am bob pryder yn ymwneud â diogelu. Rwy'n awyddus i ddarganfod pa effaith mae hyn wedi'i chael ar y gofal a'r driniaeth a gaiff pobl hŷn. Mae gen i ddiddordeb penodol yn y newidiadau i bolisïau ac arferion sydd wedi arwain at ddulliau gwell o nodi materion diogelu posibl, sut y caiff egwyddorion cyd-gynhyrchu eu cymhwyso at oedolion sydd o bosibl mewn perygl a sut y caiff gwybodaeth ei rhannu ag aelodau o'r teulu a chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Rwyf felly'n amgáu holiadur er mwyn casglu data ansoddol a meintiol ar y mater hwn gan Fyrddau Iechyd Ledled Cymru. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech lenwi hwn a'i ddychwelyd ataf erbyn dydd Gwener 28 Gorffennaf er mwyn i mi ddadansoddi'r wybodaeth a roddwyd cyn cael trafodaethau dilynol gyda'r unigolion arweiniol sy'n gweithio ar faterion diogelu o fewn y Bwrdd, os bydd angen.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

www.olderpeoplewales.com

Yn dilyn y dadansoddiad hwn, byddaf yn llunio adroddiad terfynol gydag argymhellion gan Fyrddau Iechyd, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion da yn ystod Gwanwyn 2018.

Mae gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) y potensial o newid bywydau pobl hŷn mewn ffordd ystyrlon, sef pwysigrwydd cadw eu llais a'u rheolaeth (gyda chefnogaeth eiriolwr annibynnol neu aelod o'r teulu) a bod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau a chael eu cefnogi i gadw, gwella a chynnal eu llesiant yng Nghymru am gyn hired â phosibl.

Fy nod i yw deall sut ac ymhle mae Byrddau Iechyd wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn o fewn eu cyfrifoldebau diogelu ochr yn ochr â chyfrifoldebau cyfreithiol presennol fel y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yn dilyn trafodaethau gyda Byrddau Iechyd Iedled Cymru, rydw i'n ymwybodol bod hon yn agenda a rennir, a'i bod yn agenda lle mae ymrwymiadau clir wedi'u gwneud i sicrhau bod mesurau i amddiffyn, diogelu a gofalu am gleifion hŷn ar waith ac yn cael eu gwella'n barhaus.

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am yr adolygiad hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Atodiad 3: Holiadur Hunanwerthuso ar gyfer Byrddau Iechyd

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Pa gamau gweithredu y mae Byrddau Iechyd yn eu cymryd er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl hŷn mewn ysbytai yn ddiogel rhag niwed, yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

Sefydliad	
Enw a theitl swydd y swyddog sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion	
E-bost	
Rhif ffôn	
Dyddiad	
Llofnod	

Prif Weithredwr–

Enw:

Dyddiad:

Llofnod:

Cadeirydd

Enw:

Dyddiad:

Llofnod:

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 28 Gorffennaf 2017

Anfonwch eich ymatebion at: review.adolygiad@olderpeoplewales.com

Mai 2017 1

Gwybodaeth Ychwanegol (Dewisol)

Enw a theitl swydd swyddog arall sydd wedi'i enwebu i gyfrannu at yr adolygiad	
E-bost	
Rhif ffôn	
Dyddiad	

Enw a theitl swydd swyddog arall sydd wedi'i enwebu i gyfrannu at yr adolygiad	
E-bost	
Rhif ffôn	
Dyddiad	

Cwestiwn 1

Rhestrwch y swyddi diogelu yn eich Bwrdd Iechyd (gyda % o'r amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer diogelu oedolion). Nodwch pa swyddi sydd wedi newid ers 2014 (e.e. ydyn nhw'n swyddi newydd neu a oes cyfrifoldebau newydd o ran diogelu oedolion wedi'u hychwanegu atynt).

Swydd	% Diogelu Oedolion	Newidiadau

Rhowch sylwadau ar unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud neu newidiadau fydd wedi'u cynllunio

(500 gair)

Cwestiwn 2

Pa bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau a ddefnyddir gan staff y Byrddau Iechyd yn benodol ar gyfer eu gwaith yn diogelu oedolion, gan gynnwys Adolygiadau Ymarfer Oedolion?

Darparwch gopïau o'r dogfennau neu ddolenni iddynt.

Enw'r ddogfen	Math o ddogfen	Dyddiad cyflwyno'r ddogfen

Rhowch sylwadau ar unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud neu'r newidiadau sydd wedi'u cynllunio

(500 gair)

Cwestiwn 3

Pa gyrsiau hyfforddi sydd wedi'u darparu / comisiynu gan y Bwrdd Iechyd ers 2014, ac i bwy? (e.e. Hyfforddiant ymwybyddiaeth; hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr Arweiniol Dynodedig; hyfforddiant ar gyfer Ymchwilwyr / Ymholwyr; gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)

Enw'r cwrs a'r grŵp(grwpiau) targed	Dyddiadau'r cwrs	Nifer a oedd yn bresennol

Cwestiwn 4 Sut mae'r ddyletswydd newydd i roi gwybod i awdurdodau lleol am oedolion mewn perygl wedi effeithio ar waith y Bwrdd Iechyd?
A oes gweithdrefn benodol ar waith, y dylai staff y Bwrdd ei dilyn, sy'n nodi trefniadau 'i gadarnhau'r ffeithiau' cyn rhoi gwybod i awdurdodau lleol am bryderon diogelu? Oes / Nac oes Os oes, atodwch gopi neu cyfeiriwch at y dogfennau sydd wedi'u darparu ar gyfer cwestiwn 2.
Darparwch ddata ar gyfanswm y nifer o atgyfeiriadau a wnaed i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol gan y Bwrdd Iechyd ynglŷn ag oedolion mewn perygl yn yr ysbyty, gan nodi hefyd a oedd y drwgweithredwyr honedig yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd, a hynny yn ystod y blynyddoedd canlynol:

Blwyddyn	Nifer yr atgyfeiriadau	Drwgweithredwyr a oedd yn gweithio i Fwrdd Iechyd
2013/14		
2014/15		
2015/16		

Rhowch sylwadau am unrhyw dueddiadau rydych chi wedi eu canfod yn y ward neu'r ysbyty (500 gair)
Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud yn siŵr bod pryderon ynghylch oedolion mewn perygl yn cael eu hatgyfeirio at awdurdodau lleol er y gallai gweithdrefnau eraill fod ar waith (e.e. cwynion, ymchwiliadau Adnoddau Dynol, Ymchwiliadau Dynladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Achos Dynladdiad Trais Domestig)? (500 gair)
Rhowch sylwadau ar effaith y ddyletswydd newydd i adrodd am waith y Bwrdd Iechyd ac am unrhyw newidiadau sydd wedi'u cynllunio. (1000 gair)

Cwestiwn 5 A yw'r Bwrdd wedi derbyn cais gan awdurdodau lleol i "wneud ymholiadau ar eu rhan" ynghylch oedolion sy'n gleifion mewn adrannau ysbyty ac sydd mewn perygl, er mwyn galluogi'r Bwrdd i benderfynu a ddylid gweithredu mewn unrhyw ffordd?	
Darparwch ddata 2015/16 a 2016/17 ar gyfer yr holl ymholiadau y mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â nhw mewn perthynas â chleifion mewnol fel a ganlyn:	
Awdurdodau lleol	Nifer yr ymholiadau y gofynnwyd amdanynt
xxxxx 2015/16 2016/17	
xxxxx 2015/16 2016/17	
xxxxx 2015/16 2016/17	
A yw'r trefniadau newydd i Fyrddau Iechyd wneud ymholiadau ar ran awdurdodau lleol wedi newid y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd? A oes cynnydd neu ostyngiad yn yr adegau pryd maent yn gweithio ar y cyd? (1000 gair)	

Cwestiwn 6

Pa brosesau archwilio a sicrhau ansawdd sydd gan y Bwrdd Iechyd ar waith i sicrhau ei fod yn diwallu ei ddyletswydd o ran rhoi gwybod i awdurdodau lleol am gleifion mewnol sy'n oedolion mewn perygl, ac i ymgymryd ag ymholiadau ar gais?

Darparwch gopi o'r polisi sicrhau ansawdd ac o'r gweithdrefnau archwilio sy'n rhoi sylw i ddiogelu oedolion (os yw'r rhain yn rhan o ddogfen fawr, bydd angen i chi ddewis a chyflwyno'r adrannau perthnasol yn unig).

Darparwch gopïau o'r holl adroddiadau sicrhau ansawdd ar ddiogelu oedolion a gyflwynwyd i'r uwch dîm rheoli ac i'r Bwrdd yn 2014/15, 2015/16 a 2016/17 (os ydynt yn rhan o adroddiadau mwy, bydd angen i chi ddewis a chyflwyno'r adrannau sy'n berthnasol i ddiogelu oedolion yn unig).

Beth yw'r prif bethau y mae'r Bwrdd wedi'u dysgu o'r adroddiadau archwilio a sicrhau ansawdd uchod?

A oes cynlluniau ysgrifenedig ar waith i effeithio ar unrhyw newidiadau a gwelliannau sy'n cael eu harfer ar hyn o bryd? Os oes, cyflwynwch gopïau.

Er enghraifft: A yw'r Bwrdd wedi gallu dod o hyd i dueddiadau penodol a allai ddangos neu sydd wedi dangos problemau diogelu ehangach sy'n ymwneud â phobl hŷn y mae'r Bwrdd lechyd yn eu harchwilio ymhellach neu'n mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd?

(1000 gair)

Cwestiwn 7

Disgrifiwch unrhyw newidiadau yng ngwaith y Bwrdd lechyd o ran diogelu oedolion, sy'n codi o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yng nghyswllt:

(Dim mwy na 850 gair i bob ateb)

Gweithio gydag oedolion mewn perygl sy'n gleifion mewn ysbyty, gan gynnwys sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael i oedolion mewn perygl fel y disgrifir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ogystal â dyletswyddau deddfwriaethol presennol o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Gweithio gyda theuluoedd yr oedolion sydd mewn perygl gan ddefnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 pan fydd pryderon diogelu'n cael eu codi gan aelod o'r teulu.

- Rhaid i ymatebion hyn gyfeirio at y gweithdrefnau a'r prosesau sicrhau ansawdd y mae'r Bwrdd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod pryderon teuluoedd yn cael eu clywed, eu cofnodi ac y gweithredir arnynt.
- Disgwylir hefyd i chi gyfeirio at y modd y caiff cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig parhaus eu rheoli yng nghyswllt teuluoedd ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i rym. Nodwch hynny mewn perthynas â chynadleddau achos, eiriolaeth annibynnol ac ar ôl dod i'r penderfyniad nad pryderon diogelu yw'r materion sydd wedi'u codi, ond yn hytrach bod angen eu trin fel cwyn ffurfiol neu fater llywodraethu.

Mai 2017 12

Gweithio gydag awdurdodau lleol
Gweithio gyda'r Heddlu
Canfod a/neu atal camdriniaeth ac esgeulustod yn gynnar

Cwestiwn 8

Rhowch enghreifftiau o arferion da gan y Bwrdd Iechyd ac o'r hyn mae wedi'i ddysgu yng nghyswllt diogelu oedolion ers 2014.

Gallai'r rhain gynnwys:

- Dysgu oddi wrth Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Rheoli newidiadau i ddiwylliant amhriodol ar wardiau
- Dysgu oddi wrth ymchwiliadau mawr
- Chwythu'r Chwiban
- Gwaith gyda dioddefwyr a'u teuluoedd (dienw)
- Gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill
- Hyfforddiant arloesol ar gyfer staff
- Lledaenu dysgu

Nodwch, ar gyfer pob enghraifft a ddarperir, a yw'r dysgu eisoes wedi cael ei rannu ledled Cymru.

(500 gair yr un)

Atodiad 4: Canllawiau o dan Ran 7 Adran 131(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

RHAGARWEINIAD

2. Mae 11 rhan i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhan 7 sy'n ymwneud â diogelu. Mae Deddf 2014 ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/enacted

3. Bwriedir i Ran 7 gael ei darllen yng nghyd-destun y Ddeddf yn ei chyfanrwydd.

4. Mae Rhan 1 y Ddeddf yn rhoi trosolwg ynghyd â rhai termau allweddol:

- mae Adran 2 yn rhoi ystyr ar gyfer y term "llesiant" neu "lles";
- mae Adran 3 yn diffinio, i bwrpas y Ddeddf, pwy yw "oedolyn", "plentyn", a "gofalwr" a phwy y dylid ystyried eu bod yn "anabl";
- mae Adran 4 yn rhoi'r ystyr sydd i'w roi i'r term "gofal a chymorth".

5. Mae Rhan 2 y Ddeddf yn nodi'r dyletswyddau cyffredinol y mae'n **rhaid** i berson sy'n ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf gydymffurfio â nhw;

- mae Adran 5 yn darparu bod yn **rhaid** i unrhyw berson sy'n ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf geisio hybu lles pobl sydd angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr sydd angen cymorth arnynt;
- mae Adran 6 yn gorfodi dyletswyddau cyffredinol ar rai sy'n ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf tuag at bobl sydd angen neu sydd efallai angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr sydd angen neu sydd efallai angen cymorth arnynt, neu bobl yng nghyswllt y rhain y caiff swyddogaethau o dan ran 6 y Ddeddf (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) eu hymarfer;
- mae Adran 7(1) yn darparu lle mae person yn ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf yng nghyswllt oedolyn sydd neu y bydd efallai angen gofal a chymorth arnynt, neu gyda gofalwr sydd neu y bydd efallai angen cymorth arnynt, **rhaid** i'r person hwnnw roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar Bobl Hŷn fel y cawsant eu mabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991;
- mae Adran 7(2) yn darparu lle mae person yn ymarfer swyddogaethau yng

nghyswllt plentyn sydd neu y bydd efallai angen gofal a chymorth arnynt, neu gyda gofalwr sydd neu y bydd efallai angen cymorth arnynt, neu sy'n "blentyn sy'n derbyn gofal", ` i'r person hwnnw roi sylw dyledus i Ran 1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y cafodd ei fabwysiadu a'i agor i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i gytuno gan Benderfyniad Rhif 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989 ("y confensiwn");

- o dan Adran 15 rhaid i awdurdodau lleol drefnu gwasanaethau ataliol, gan gynnwys o ran cyfrannu at atal pobl rhag dioddef cam-drin neu esgeulustod. Mae'r cod ymarfer yng nghyswllt Rhan 2 yn rhoi canllawiau pellach ar wasanaethau ataliol.

6. Mae Rhan 7:

- yn gofyn bod awdurdod lleol yn ymchwilio lle mae'n amau bod oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl o gael eu cam-drin neu esgeuluso (Adran 126);
- yn darparu ar gyfer gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion i awdurdodi mynd i mewn i eiddo (drwy rym lle bo angen) fel bod swyddog awdurdodedig yn gallu asesu a yw oedolyn mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd (Adran 127);
- yn gofyn bod awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol yn adrodd i'r awdurdod lleol priodol lle maen nhw'n amau bod pobl efallai mewn perygl o gael eu cam-drin neu esgeuluso (Adrannau 128 a 130);
- yn datgymhwyso Adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (sy'n caniatáu i awdurdodau lleol wneud cais am orchymyn llys i dynnu pobl sydd angen gofal a sylw arnynt allan o'u cartrefi i'r ysbyty a mannau eraill) (Adran 129);
- yn sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i roi cymorth a chyngor i sicrhau bod y Byrddau Diogelu'n effeithiol (Adrannau 132 a 133);
- yn darparu ar gyfer sefydlu Byrddau Diogelu ar gyfer oedolion a phlant, a chyfuno byrddau o'r fath (Adrannau 134-141).

7. Mae Rhan 7 yn rhoi amrywiol bwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ategu'r rhan yma o'r Ddeddf. Y rheoliadau perthnasol a wneir yng nghyswllt Rhan 7 y Ddeddf yw:

- Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddogion Awdurdodedig) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015;
- Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015; a Rheoliadau

Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

Atgynhyrchir y Rheoliadau hyn yn Atodiad 1 y Canllawiau hyn.

8. Rhoddir y Canllawiau hyn yng nghyswllt Rhan 7 y Ddeddf. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, maent yn ganllawiau statudol.

9. Caiff y Canllawiau a roddir yng nghyswllt Adrannau 126-128 ac Adran 130 y Ddeddf eu cyhoeddi o dan Adran 131(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae canllawiau a gyhoeddir o dan Adran 131 yn berthnasol i'r personau canlynol:

(a) Awdurdodau Lleol;

(b) Byrddau Iechyd Lleol;

(c) Ymddiriedolaethau'r GIG;

(d) Y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu mewn ardal heddlu, lle mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru;

(e) Yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan Adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yng nghyswllt Cymru;

(f) Unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf sydd, o dan drefniadau yn Adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007, yn ofynnol iddynt weithredu fel partner perthnasol i awdurdod lleol yng Nghymru;

(g) Gweinidogion Cymru lle maen nhw'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000;

(h) Unrhyw berson, neu berson o'r disgrifiad hwnnw, y gallai rheoliadau o dan Adran 162(4) eu rhestru;

(i) Y Tîm Troseddwyr Ifanc yn yr ardal lle daw unrhyw ran ohoni o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru;

(j) Person sy'n swyddog awdurdodedig i bwrpas Adran 127;

(k) Cwnstabl neu berson arall penodedig sy'n cynorthwyo swyddog awdurdodedig yn unol â gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion a wnaed o dan Adran 127;

Caiff y Canllawiau a roddir i bartneriaid Byrddau Diogelu yng nghyswllt Adrannau 134-138 o'r Ddeddf eu cyhoeddi o dan Adran 139(3) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae canllawiau a gyhoeddir o dan Adran

139 yn berthnasol i'r personau canlynol:

(a) Awdurdodau lleol;

(b) Prif Swyddog yr Heddlu mewn ardal heddlu, lle mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn ardal Bwrdd Diogelu;

(c) Byrddau Iechyd Lleol;

(d) Ymddiriedolaethau'r GIG;

(e) Yr Ysgrifennydd Gwladol lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan Adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yng nghyswllt Cymru;

(f) Unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf sydd, o dan drefniadau yn Adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007, yn ofynnol iddynt weithredu fel partner Bwrdd Diogelu yng nghyswllt ardal Bwrdd Diogelu benodol;

11. Nid oes gan ganllawiau statudol rym statudol llawn ond rhaid i bartneriaid Bwrdd Diogelu ac unigolion neu sefydliadau perthnasol eraill roi sylw dyledus iddynt oni bai fod amgylchiadau lleol yn nodi bod rhesymau eithriadol sy'n cyfiawnhau peidio.

12. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys canllawiau anstatudol er mwyn rhoi gwybodaeth i gynorthwyo Byrddau Diogelu. Er nad oes ganddynt rym statudol canllawiau statudol, dylid glynu atynt fel arfer da.

13. Mae'r canllawiau hyn yn ystyried:

a) Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthyglau 2,3,5,6 ac 8;

b) Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn; a

c) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

14. Mae Adran 7 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bersonau sy'n ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Wrth ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf yng nghyswllt oedolion sydd angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr sydd angen cymorth arnynt, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn fel y cawsant eu mabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer

Pobl Hŷn i'w cael yn: http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm. Mae 18 o egwyddorion, wedi eu grwpio'n bum thema: annibyniaeth, cyfranogi, hunan-gyflawni, gofal ac urddas.

16. Wrth ymarfer swyddogaethau o dan y Ddeddf yng nghyswllt plant sydd angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr am blant sydd angen cymorth arnynt a phersonau y caiff swyddogaethau eu cyflawni yn eu cyswllt o dan Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya), rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i Weinidogion Cymru oherwydd mae ganddynt eisoes ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r UNCRC yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae gwybodaeth am yr UNCRC a'r Cynllun Hawliau Plant, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gael yn:

http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD9732%20-%20Children's%20Rights%20Scheme%202014-22042014-255569/gen-ld9732-e-Cymraeg.pdf

Eiriolaeth

17. **Rhaid** i unigolyn deimlo eu bod yn bartner cyfartal yn eu perthynas gyda gweithwyr proffesiynol. Gall unrhyw unigolyn wahodd unrhyw un arall i'w cefnogi i gyfranogi'n llawn ac i fynegi eu barn, dymuniadau a theimladau. Gall hyn fod yn ffrindiau, teulu neu'n rhywun o'u rhwydwaith cymorth ehangach.

18. Mae'r cod ymarfer penodedig ar eiriolaeth o dan Ran 10 y Ddeddf yn nodi'r swyddogaethau y mae'n **rhaid** i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r unigolyn, ddyfarnu yn eu cylch o ran sut y gallai eiriolaeth helpu i benderfynu ynghylch, a darparu, canlyniadau personol yr unigolyn; ynghyd ag o dan ba amgylchiadau y mae'n **rhaid** i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. **Rhaid** i weithwyr proffesiynol ac unigolion sicrhau bod unrhyw ddyfarniad ynghylch bod angen eiriolaeth neu beidio'n rhan annatod o'r dyletswyddau perthnasol o dan y canllawiau statudol hyn.

Pennod Un

CANLLAWIAU O DAN RAN 7, ADRAN 131(1) O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 (Y DDEDDF)

19. Mae'r rhan yma o'r canllawiau'n ymwneud â'r canlynol:

- Adran 126, sy'n diffinio "oedolyn mewn perygl", sy'n gorfodi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud, neu achosi gwneud, unrhyw ymholiadau y mae'n ystyried bod angen eu gwneud i benderfynu a yw person yn oedolyn mewn perygl; a phenderfynu pa gamau, o gwbl, y dylid eu cymryd;

- Adran 127, sy'n cyflwyno gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion (APSO). Mae rheoliadau o dan Adran 127(9) yn cyfyngu ar ba bersonau neu gategorïau o bersonau sy'n gallu bod yn 'swyddog awdurdodedig';
- Adran 128, sy'n cyflwyno dyletswydd statudol ar 'bartneriaid perthnasol' fel y diffinnir hwynt yn Adran 162(4), i hysbysu'r awdurdod lleol o unrhyw oedolyn mewn perygl mewn amgylchiadau penodedig;
- Adran 130, sy'n cynnwys dyletswydd ar 'bartneriaid perthnasol' ac ar y tîm troseddwyr ifanc perthnasol i hysbysu awdurdod lleol o unrhyw blentyn mewn perygl mewn amgylchiadau penodedig.

20. Diffinnir partneriaid perthnasol gan Adran 162(4) fel:

(a) Y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu mewn ardal heddlu, lle mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;

(b) Unrhyw awdurdod lleol arall lle mae'r awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol iddynt gydweithredu o dan yr Adran hon;

(c) Yr Ysgrifennydd Gwladol lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan Adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yng nghyswllt Cymru;

(d) Unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf sydd, o dan drefniadau yn Adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007, yn ofynnol iddynt weithredu fel partner perthnasol i'r awdurdod;

(e) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn ardal yr awdurdod;

(f) Ymddiriedolaeth y GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;

(g) Gweinidogion Cymru lle maen nhw'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000;

(h) Unrhyw berson, neu berson o'r disgrifiad hwnnw, y gallai rheoliadau eu rhestru[1].

Hawliau dynol

21. Rhaid i ymarferwyr nodi'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau cyhoeddus o dan Adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ymwneud â nifer o hawliau yn y Confensiwn:

1 Nid oes bwriad ar hyn o bryd i ragnodi unrhyw bersonau eraill.

Erthygl 2 – yr hawl i'ch bywyd gael ei amddiffyn;

Erthygl 3 – yr hawl i beidio â chael eich trin mewn ffordd annynol neu israddol

Erthygl 5 - yr hawl i ryddid a diogelwch;

Erthygl 6 - yr hawl i wrandawiad teg;

Erthygl 8 - yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

Oedolion mewn perygl

22. Mae Adran 126(1) yn diffinio oedolyn mewn perygl.

"Oedolyn mewn perygl", i bwrpas y Rhan yma, yw oedolyn sydd:-

(a) eisoes yn, neu mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso;

(b) angen gofal a chymorth arnynt (p'un ai yw'r awdurdod yn cwrdd ag unrhyw un o'r anghenion hynny neu beidio); ac

(c) o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu ag amddiffyn eu hunain rhag cam-drin neu esgeulustod neu risg hynny."

23. Mae'r diffiniad hwn o "oedolyn mewn perygl" yn berthnasol yng nghyswllt y pwerau statudol a'r dyletswyddau yn Rhan 7 y Ddeddf ac, i'r pwrpasau hynny, yn disodli'r diffiniad o "oedolyn agored i niwed" a roddir yn *Mewn Dwylo Diogel* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000).

24. Mae Adran 197(1) o'r Ddeddf yn rhoi diffiniadau ar gyfer "cam-drin" ac "esgeuluso": mae "cam-drin" yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac yn cynnwys cam-drin sy'n digwydd yn unrhyw le, p'un ai mewn tŷ preifat, sefydliad neu unrhyw le arall), ac mae "cam-drin ariannol" yn cynnwys:-

- lle mae eich arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn;
- lle'r ydych yn cael eich twyllo;
- lle cewch eich rhoi dan bwysau yng nghyswllt arian neu eiddo arall;
- lle mae eich arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio.

mae "esgeuluso" yn golygu methu â chwrdd ag anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol person, sy'n debygol o amharu ar les y person (er enghraifft, amharu ar iechyd person, neu yn achos plentyn amharu ar ei ddatblygiad).

25. Mae'r diffiniadau hyn yn gyfarwydd i ymarferwyr. Wrth asesu sefyllfa, dylid ystyried y pethau canlynol:

- pa mor eiddil neu agored i niwed yw'r oedolyn mewn perygl;
- maint y cam-drin neu esgeuluso;
- am ba hyd a pha mor aml y mae wedi bod yn digwydd;
- yr effaith ar yr unigolyn;
- y risg y gallai ddigwydd eto neu waethygu, yn achos yr oedolyn dan sylw neu oedolion eraill mewn perygl.

26. Mae'r canlynol yn rhestr anghyflawn o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau cam-drin ac esgeuluso:

- cam-drin corfforol – tario, slapio, gor- neu gam-weinyddu meddyginiaeth, ffrwyno gorfodol, neu sancsiynau amhriodol;
- cam-drin rhywiol – treisio ac ymosod yn rhywiol neu weithredoedd rhyw lle na wnaeth yr oedolyn agored i niwed, neu lle na allai, gydsynio iddynt a / neu lle cawsant eu rhoi dan bwysau i gydsynio iddynt;
- cam-drin seicolegol – bygwth niwed neu adael y person, gorthrwm cymhellol,
- codi cywilydd, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu'r person neu ddal gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogol yn ôl (mae gorthrwm cymhellol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd lle defnyddir ymosod, codi cywilydd, bygwth neu gam-drin arall i achosi niwed, cosbi neu i godi ofn ar y dioddefwr);
- esgeuluso – methu â defnyddio gofal meddygol neu wasanaeth, esgeuluso yn wyneb cymryd risg, methu â rhoi meddyginiaeth wedi'i ragnodi, methu â chynorthwyo gyda thasgau hylendid personol neu fethu â darparu bwyd, cysgod, dillad; esgeulustod emosiynol;
- cam-drin ariannol yng nghyswllt pobl sydd efallai ag anghenion cymorth a gofal. Mae arwyddion posib o hyn yn cynnwys:
  - newid eu hewyllys yn annisgwyl;
  - gwerthu neu drosglwyddo'r cartref yn sydyn;
  - symudiadau anghyffredin yn y cyfrif banc;
  - cynnwys enwau ychwanegol ar gyfrif banc yn annisgwyl;
  - nid yw llofnod y person yn edrych fel llofnod arferol y person;
  - y person yn gyndyn o drafod, neu'n bryderus wrth drafod eu busnes ariannol;

- rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti arall;
- diddordeb sydyn gan berthynas neu drydydd parti arall yn lles y person;
- biliau heb eu talu;
- cwynion bod eiddo personol ar goll;
- dirywiad yn edrychiad personol y person a allai awgrymu fod gofynion diet a phersonol yn cael eu hanwybyddu;
- ynysu'r person yn fwriadol oddi wrth ffrindiau a theulu gan roi rheolaeth lwyr i berson arall dros wneud penderfyniadau..

27. Gallai unrhyw un o'r mathau uchod o gam-drin gael eu cymell gan nodweddion personol y dioddefwr. Gallai olygu felly eu bod yn droseddau casineb. Mae'r rhain yn drosedd sydd, yng ngolwg y dioddefwr neu berson arall, wedi eu cymell gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd, hil, crefydd a chred, tueddiad rhywiol a thrawsrywioldeb gwirioneddol neu dybiedig gan y person.

28. **Rhaid** i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'r ddyletswydd gyfrinachedd o dan gyfraith gyffredin. Mae'r ddau beth yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid eu defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithiol heb ganiatâd lle mae'n ofynnol gyfreithiol neu lle mae'r gweithiwr proffesiynol yn ystyried bod angen gwneud er budd y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol hyn yw er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill.

29. Dylid rhannu unrhyw wybodaeth lle gellir adnabod y person yn unol â Chytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI). Fframwaith yw WASPI ar gyfer pob corff cyhoeddus, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru. Mae'n ategu cydweithrediad effeithiol ar draws y gwahanol gyrff, yn helpu i oresgyn unrhyw rwystrau ac yn galluogi staff i rannu gwybodaeth yn ddiogel a chyfreithlon. Am fwy o wybodaeth am WASPI, cliciwch ar y ddolen ganlynol: http://www.waspi.org/. Llywodraeth EM - Information Sharing: guidance for practitioners and managers – uchafbwyntiau:-

3.1 Nid yw'n bosib rhoi canllawiau ar gyfer pob amgylchiad lle byddai cyfiawnhad dros rannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd. Rhaid i chi ddod i ddyfarniad ar sail y ffeithiau ym mhob achos. Lle mae risg glir o niwed sylweddol i blentyn, neu niwed difrifol i oedolyn, bydd y prawf budd cyhoeddus bron yn sicr wedi'i fodloni (ac eithrio fel y disgrifiwyd yn 3.43). Bydd achosion eraill lle bydd gennych gyfiawnhad dros rannu gwybodaeth gyfrinachol gyfyngedig er mwyn gallu penderfynu ar rannu gwybodaeth bellach neu gymryd camau pellach – dylai'r wybodaeth a rennir fod yn angenrheidiol

i'r pwrpas a dylai fod yn gymesur.

3.42 Mae rhai amgylchiadau lle bydd cyfiawnhad fel arfer dros rannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd er budd y cyhoedd. Yr amgylchiadau hyn yw:

- lle mae tystiolaeth neu le rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol; neu
- lle mae tystiolaeth neu le rhesymol i gredu bod oedolyn yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed difrifol; neu
- i atal niwed sylweddol i blentyn neu niwed difrifol i oedolyn, gan gynnwys drwy atal, canfod ac erlyn troseddau difrifol.

3.43 Un eithriad i hyn fyddai lle byddai oedolyn gyda'r galluedd i wneud penderfyniadau (wele baragraff 3.30 [yn Information Sharing; guidance for practitioners and managers] yn rhoi eu hunain mewn perygl ond heb gyflwyno unrhyw berygl o niwed sylweddol i blant na niwed difrifol i oedolion eraill. Yn yr achos hwn ni fyddai cyfiawnhad efallai dros rannu gwybodaeth heb ganiatâd. Dylech ofyn am gyngor os nad ydych yn siŵr.

30. Y diffiniad o "oedolyn mewn perygl" yw person sydd eisoes, neu sydd 'mewn perygl' o gael eu cam-drin neu esgeuluso. Drwy gynnwys 'mewn perygl' gellir ymyrryd yn gynnar i amddiffyn oedolyn mewn perygl. Nid oes angen i gam-drin neu esgeuluso fod wedi digwydd cyn penderfynu gweithredu.

31. Mae cam-drin ac esgeuluso'n aml yn drosedd. Dyma restr anghyflawn o'r mathau o droseddau y gallai gael eu cyflawni:-

- troseddau yn erbyn y person – ymosod, niwed corfforol difrifol, gwir niwed corfforol;
- troseddau rhywiol – treisio, troseddau o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (gan gynnwys gweithred rywiol â pherson gydag anhwylder meddyliol gan atal dewis);
- troseddau eiddo – dwyn, twyll, difrod troseddol.

Dyletswydd awdurdod lleol i wneud ymholiadau

32. Mae Adran 126 (2) yn nodi:-

"Os oes gan awdurdod lleol le rhesymol i amau bod person yn ei ardal (p'un ai'n preswylio yno fel arfer neu beidio) yn oedolyn mewn perygl, **rhaid** iddo:-

(a) gwneud (neu achosi gwneud) pa bynnag ymholiadau y cred sydd angen eu gwneud er mwyn gallu penderfynu a ddylid gweithredu (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, beth a chan bwy; a

(b) penderfynu a ddylid cymryd camau gweithredu o'r fath."

33. Mae tair elfen wahanol i hyn:

- lle rhesymol i amau;
- gwneud ymholiadau; a
- cofnodi canlyniad yr ymholiadau.

34. Dylid cofnodi'r penderfyniad i wneud ymholiadau er mwyn nodi ar ba bwynt y defnyddir y ddyletswydd ac er mwyn sicrhau bod ymholiadau'n cael eu cyflawni'n amserol.

35. Ni ddylid rhuthro ymholiadau, ond dylid gosod amserlen. Dylid cwblhau ymholiadau fel arfer o fewn SAITH diwrnod gwaith i'r atgyfeiriad. Ni fyddai hyn yn atal gweithredu ar unwaith lle bo angen i amddiffyn oedolyn mewn perygl. Os yw ymholiad yn cymryd hirach na saith diwrnod, dylid cofnodi'r rhesymau. Dylai'r awdurdod lleol fonitro cydymffurfio ag amserlenni a'r rhesymau a roddir am fynd dros yr amserlen saith diwrnod gwaith. Rhaid i awdurdodau lleol rannu eu data gyda'r Bwrdd Diogelu Oedolion fel bo'r Bwrdd yn gallu cyflawni ei gyfrifoldeb i fonitro gwelliannau.

36. Mae ymholiadau'n cynnwys ystod o weithgarwch, nid ydynt o reidrwydd yr un fath. Yr awdurdod lleol sydd i benderfynu ar ffurf yr ymholiadau, ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael iddo, ac wedi ystyried amgylchiadau'r achos unigol. Dylai awdurdodau lleol gofnodi'n ysgrifenedig pam eu bod yn credu bod angen gwneud yr ymholiadau, a ffurf yr ymholiadau. Mae ymholiadau'n fater o gasglu gwybodaeth yn hytrach na'n ymchwiliad ffurfiol wedi'i gomisiynu fel rhan o'r broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Gall ymholiadau gyrraedd y cam cyfarfod strategol; nid y rhan ymchwiliol o'r broses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ydynt. Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol gyda'r heddlu, er y gallai hynny ddigwydd yn y pen draw.

37. Gall yr awdurdod lleol wneud yr ymholiadau ei hun, neu achosi bod corff arall yn eu gwneud. Erys y ddyletswydd i benderfynu ar natur yr ymholiadau gyda'r awdurdod lleol, er efallai mai corff arall sy'n gwneud yr ymholiadau. Gellir gofyn i bartneriaid perthnasol wneud ymholiadau ar ran yr awdurdod lleol, a rhaid iddynt gydymffurfio â chais o'r fath oni bai y byddai'n anghydnaws â'u dyletswyddau eu hunain, Gallai fod amgylchiadau lle gallai eraill gynorthwyo, er enghraifft corff trydydd sector sy'n rhoi cymorth i'r person.

38. Wrth benderfynu ar natur ymholiadau, dylai'r awdurdod lleol ystyried nifer o ffactorau:

- hawl y person y credir eu bod yn oedolyn mewn perygl i wrthod cymryd rhan.

Nid yw gwrthod cymryd rhan o reidrwydd yn rhyddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswydd, ond gallai leihau effeithiolrwydd yr ymholiadau. Bydd natur barhaus y ddyletswydd yn cynorthwyo mewn ymholiadau lle defnyddiwyd gorthrwm cymhellol neu or-gymell;

- dymuniadau a theimladau'r oedolyn mewn perygl;
- y posibilrwydd nad yw'r oedolyn y credir ei fod mewn perygl yn gwneud ei benderfyniadau ei hun;
- a oes angen cynnwys eiriolwr o dan unrhyw gynllun eiriolaeth statudol neu wirfoddol;
- bod angen gwneud yr ymholiadau'n sensitif gan achosi cyn lleied o drallod i'r person ac eraill (er enghraifft, gofalwyr ac aelodau eraill o'r teulu) â phosib;
- a oes gan y camweithredwr unrhyw anghenion gofal a chymorth;
- a yw'r camweithredwr yn darparu gofal neu gymorth i oedolyn arall mewn perygl neu blentyn a allai fod mewn perygl;
- bod angen i'r awdurdod lleol weithio'n agos gyda, a chynnwys asiantaethau eraill a allai helpu gyda'r ymholiadau a chyfrannu at ganlyniad yr ymholiadau sydd mewn golwg;
- bod angen bod yn ymwybodol o lygru unrhyw dystiolaeth y gellid ei defnyddio mewn unrhyw ymchwiliad troseddol presennol neu i ddod;
- pwysigrwydd cydnabod bod unrhyw ymholiadau'n gymesur a chydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac Adrannau 2,5,6 a 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

39. Yn fras, dylai fod gan ymholiadau dri cham iddynt:

i. Sgrinio: gwirio cywirdeb ffeithiol cyffredinol unrhyw atgyfeiriad.

ii. Gwerthuso cychwynnol: Casglu, adolygu a chydgrynhoi gwybodaeth.

iii. Penderfynu: O ystyried canlyniad y sgrinio / gwerthuso cychwynnol beth, os o gwbl, y dylid ei wneud? Gallai hyn gynnwys cychwyn ymchwiliad unasiantaethol neu amlasiantaethol.

40. Os penderfynnir yn fuan nad yw'r person yn oedolyn mewn perygl, dylai'r ymholiadau ddod i ben. Fodd bynnag, efallai fod angen cyfeirio'r person ymlaen at asiantaeth neu wasanaeth arall lle bo hynny'n briodol, neu am asesiad o dan Adran 19 neu 24 y Ddeddf. O dan Adran 17 y Ddeddf, rhaid i awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i helpu pawb dderbyn cyngor a chymorth perthnasol, cywir ac amserol am sut i gwrdd â'u hanghenion gofal a chymorth er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles personol. Mae'r cod ymarfer perthynol i Ran 2 yn nodi'r holl bethau sy'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud o ran darparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

41. **Rhaid** i bartneriaid perthnasol rannu gwybodaeth fel rhan o ymarfer y ddyletswydd hon o dan baragraff 28 a 29 uchod, oni bai y byddai'n anghyfreithlon gwneud hynny.

42. Dylid cynnwys y wybodaeth isod mewn adroddiad ar ymholiad sy'n debygol o gael ei gadw gyda chofnod achos y person yr amheuir eu bod yn oedolyn mewn perygl:

- pwy yw'r unigolion wnaeth adnabod y pryder a phwy yw'r unigolyn a benderfynodd ddechrau'r ymholiadau;
- pwy yw, a manylion perthnasol y person sy'n destun yr ymholiadau;
- crynodeb o'r dystiolaeth y cafodd y 'lle rhesymol i amau' ei seilio arni;
- pwy yw'r person neu bersonau, a lle bo'n berthnasol, yr asiantaeth, a wnaeth yr ymholiadau;
- cronoleg yr ymholiadau;
- rhestr o'r bobl a gyfrannodd wybodaeth yn ystod yr ymholiadau;
- rhestr o'r bobl a holwyd yn ystod yr ymholiadau;
- rhestr o'r dystiolaeth ddogfennol a adolygwyd yn ystod yr ymholiadau;
- datganiad bod y rhai a wnaeth yr ymholiadau'n ystyried bod, neu nad yw'r person, yn oedolyn mewn perygl; Lle mai'r canfyddiad yw nad yw'r person yn oedolyn mewn perygl, dylid cynnwys datganiad yn dweud pam y daethpwyd i'r casgliad hwn. Dylid ystyried adnabod unrhyw bryderon posib a allai godi yn y dyfodol ac a oes angen Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth;
- datganiad yn nodi a gafodd neu a ddylid gwneud asesiad o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Os oes asesiad o'r fath wedi'i wneud, dylid cynnwys y canlyniad yn y cofnod;
- datganiad am ganfyddiadau'r ymholiadau a arweiniodd at y casgliad (os dyna a ddigwyddodd) bod y person yn oedolyn mewn perygl;
- cofnod o unrhyw gam-drin a allai'r person fod wedi bod yn ei brofi ynghyd ag unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny, gan gynnwys:
    - natur y cam-drin;
    - am ba hyd y mae'r person wedi bod yn cael ei gam-drin;
    - dymuniadau a theimladau'r oedolyn mewn perygl;
    - pa mor aml a pha mor ddwys oedd y cam-drin;
    - camweithredwr honedig y cam-drin a'u perthynas, os o gwbl, gyda'r oedolyn mewn perygl;

- effaith y cam-drin ar yr oedolyn mewn perygl;
- a oes unrhyw berson arall yn y cartref a allai fod yn oedolyn mewn perygl neu'n blentyn;
- a yw'r camweithredwr honedig yn darparu gofal a chymorth i'r oedolyn mewn perygl neu i unrhyw oedolyn mewn perygl hysbys arall. Os felly, natur a dwysedd y gofal hwnnw;
- natur unrhyw gymorth a chynhorthwy y gallai'r oedolyn mewn perygl fod yn ei dderbyn gan ofalwr neu berthynas heblaw'r camweithredwr honedig;
- pwy yw unrhyw asiantaethau neu gyrff trydydd sector eraill sy'n ymwybodol neu'n gweithio gyda'r oedolyn mewn perygl;
- unrhyw faterion eraill y mae'r rhai sy'n gwneud yr ymholiadau'n credu y dylid eu cynnwys yn y cynllun gofal a chymorth.

43. O dan Adran 54, rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth i berson y mae'n ofynnol i'r awdurdod gwrdd â'i anghenion. Mae hyn yn cynnwys anghenion sydd angen eu cwrdd ym marn yr awdurdod lleol er mwyn amddiffyn oedolyn rhag cael eu cam-drin neu esgeuluso neu'r risg o hynny. Rhaid cofnodi casgliadau unrhyw ymholiadau a wneir, pan fydd amheuaeth bod person yn oedolyn mewn perygl, yn y cynllun gofal a chymorth hwn. Gall cynllun gofal a chymorth ymgorffori unrhyw gynllun amddiffyn oedolyn sydd eisoes yn ei le.

44. Dylai'r casgliad gynnwys a yw'r person yn oedolyn mewn perygl neu beidio a pha gamau y dylid eu cymryd a chan bwy.

45. Lle mae oedolyn mewn perygl wedi gwrthod cynllun gofal a chymorth, dylid cofnodi canfyddiadau'r ymholiadau yng nghofnod achos yr oedolyn. Dylai'r cofnod hwn fod yn hygyrch. Mae'n bwysig na chollir y cofnod dim ond oherwydd na chaiff ei gadw gyda'r cynllun gofal a chymorth.

Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSO)

Pwrpasau

46. Pwrpasau APSO yw:

(a) fel bo'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sy'n cynorthwyo'r swyddog yn gallu siarad yn breifat â pherson yr amheuir eu bod yn oedolyn mewn perygl;

(b) fel bo'r swyddog awdurdodedig yn gallu cadarnhau a yw'r person hwnnw'n gwneud ei benderfyniadau ei hun; ac

(c) fel bo'r swyddog awdurdodedig yn gallu asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl ac yn gallu penderfynu fel sy'n ofynnol o dan Adran 126(2) pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

47. Mae rheoliadau yn cyfyngu ar ba bersonau neu gategorïau o bersonau sy'n gallu gweithredu fel swyddog awdurdodedig. Mae'r cyfyngiadau o dan Reoliad 3[2] yn darparu bod swyddog yr awdurdod lleol lle mae'r oedolyn mewn perygl yn preswylio'n gallu bod yn swyddog awdurdodedig. Lle nad yw hyn yn ymarferol, dylai'r swyddog awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Diogelu, ac os nad yw hyn yn ymarferol rhaid i'r swyddog awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yng Nghymru.

Rôl y swyddog awdurdodedig

48. Swyddog awdurdodedig yw person sy'n gallu gwneud cais am APSO i ustus heddwch. Dylai'r swyddog awdurdodedig baratoi'r wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y gorchymyn, yn unol ag Adran 127(5 a 6) y Ddeddf. Mae'r rôl yn cynnwys cyswllt â gwasanaeth cyfreithiol yr awdurdod lleol i wneud cais i'r llys, ac efallai mynychu'r llys i roi tystiolaeth am yr angen mewn achosion penodol. Mae'r APSO yn caniatáu i'r swyddog awdurdodedig, cwnstabl heddlu ac unrhyw berson penodedig arall gynorthwyo'r swyddog awdurdodedig wrth fynd i mewn i eiddo i weithredu'r gorchymyn.

49. Mae angen nifer o sgiliau cymhleth ar swyddog awdurdodedig a **rhaid** iddynt dderbyn hyfforddiant priodol (ond yn amodol i'r eithriad o dan Reoliad 3(3)) a diweddaru eu sgiliau'n rheolaidd. Mae'n hanfodol bod gan y swyddog awdurdodedig rywfaint o ymreolaeth gan ei gyflogwr ac yn gallu cyflawni'r swyddogaethau'n annibynnol i'r gwaith dydd i ddydd o reoli'r achos dan sylw. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y dylai unrhyw un heblaw swyddog awdurdodedig hyfforddedig fod yn gymwys i wneud cais am APSO a dylid cofnodi'r rhesymau. Yn dilyn y digwyddiad hwn, bydd yr awdurdod lleol yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gyda gorchmynion APSO.

50. Dylai fod gan y swyddog awdurdodedig:

- dylai fod yn gallu asesu unrhyw risg i'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl cyn gwneud y cais, ac os gwneir APSO, unwaith y bydd wedi'i weithredu. Gallai hyn gynnwys defnyddio offer asesu risg safonedig;
- lefel uchel o ddealltwriaeth o gyd-destun cam-drin, sefyllfaoedd camdriniol ac esgeuluso;
- dylai fod yn gallu adnabod gorthrwm cymhellol a'i effeithiau ar oedolion mewn perygl;
- sgiliau cyfathrebu effeithiol a gallu adnabod unrhyw anghenion cyfathrebu

2 Adult Protection and Support Orders (Authorised Officer) (Wales) Regulations 2015

penodol sydd efallai gan y person yr amheuir eu bod mewn perygl a sut y gellir efallai gwella eu gallu i gyfleu eu dymuniadau;

- dylai allu bod yn bendant a chymryd rheolaeth o sefyllfaoedd anodd a heriol;
- dylai fod yn gallu a pharod i herio eu hawdurdod lleol ac asiantaethau eraill, lle bo angen;
- gwybod pryd y mae angen eiriolwr a sut i gefnogi'r oedolyn i gael gafael ar eiriolwr;
- dylai fod yn gallu paratoi a chyflwyno, gyda chymorth cyfreithiol, cais APSO yn glir a hyderus gerbron ustus heddwch;
- dealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i orchmynion APSO gan gynnwys goblygiadau Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 a bod angen parchu amrywiaeth;
- dealltwriaeth glir o ddarpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 o ran asesu galluedd, asesu lles gorau a rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Diffiniadau

51. I bwrpas y canllawiau statudol hyn:

'Mae person yn "byw" mewn eiddo os yw'n preswylio yno am gyfnod o amser naill ai'n barhaol neu dros dro p'un ai oes gan y person fudd cyfreithiol neu fudd arall yn yr eiddo neu beidio.'

52. Mae 'eiddo' yn cynnwys:

- eiddo domestig;
- cartref gofal preswyl neu gartref nyrsio;
- ysbyty;
- unrhyw adeilad, strwythur, cartref symudol neu garafan arall lle mae'r person yn byw.

Ni ellir defnyddio APSO o fewn eiddo'r ystâd ddiogel; carchardai neu Ganolfannau Cadw Ieuenctid (wele 185(6) y Ddeddf).

53. **Rhaid** cyflawni'r asesiad yn breifat. Lle mae'r eiddo'n ddigon mawr i'r person gael eu holi heb ofn i rywun ddigwydd clywed, bydd llai o broblemau'n codi. Ond mewn fflat neu dŷ bychan, gallai'r oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl fod ag ofn siarad yn blaen. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen defnyddio pwerau'r heddlu, er enghraifft i ofyn i unrhyw ddeiliad arall adael yr eiddo tra bo'r cyfweliad asesu'n cael ei gynnal.

54. Mae natur y pwerau sydd gan blismon o dan y gyfraith yn cynnwys:-

- Adran 17(1)(e) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984; ac
- Adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984;
- pwerau cyfraith gyffredin fel arestio am dorri'r heddwch;
- Gorchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig, Deddf Troseddu a Diogelwch 2010.

55. Mae gan gwnstabl sy'n cynorthwyo swyddog awdurdodedig bwerau mwy na dim ond cael mynediad i'r eiddo. Gall y plismon ddefnyddio grym rhesymol 'er mwyn cyflawni pwrpasau gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion'. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gellir siarad gyda'r person yn breifat.

Gwneud penderfyniadau rhydd

56. Pwrpas yr APSO yw sicrhau bod yr oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl yn 'gwneud penderfyniadau rhydd' neu eu penderfyniadau eu hunain. Dylai ymarferwyr ystyried arwyddion o or-gymell, gan gynnwys:

- ydy'r person yr honnir eu bod yn gor-gymell yn chwarae rôl ymddiriedol? Er enghraifft, staff cartref gofal, gofalwr neu berthynas;
- mewn achosion o gam-drin ariannol, ydy'r person wedi cael cynnig cyngor annibynnol?
- ydy'r person yr honnir eu bod yn gor-gymell yn atal y cyfweliad preifat rhag digwydd?
- ydy'r penderfyniad penodol y mae'r person yn ei wneud yn anghyffredin ac allan o gymeriad ar sail yr hyn y mae'r swyddog awdurdodedig a'r rhai sy'n ei chynorthwyo hi neu ef yn ei wybod neu wedi cael gwybod amdanynt?

57. Dylai rhai sy'n rhan o weithredu'r APSO sicrhau nad ydynt yn gor-gymell. Dylent fod yn ymwybodol y gall oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl efallai deimlo dan fygythiad oddi wrth bwerau statudol neu bresenoldeb nifer o bobl ddieithr yn eu cartref, gan gynnwys plismon. Gallai fod angen eiriolwr i sicrhau bod y person yn gallu herio barn yr ymarferwyr.

58. Mae'n bwysig nodi bod pwerau'r heddlu o dan Adran 127(7) y Ddeddf yn cynnwys y pŵer i gynorthwyo'r oedolyn mewn perygl i wneud penderfyniadau rhydd.

Cynllunio

59. Mae cynllunio da'n hanfodol ar gyfer APSO; wrth baratoi cais a chynllunio i fynd i mewn ac, yn bwysig, allan o'r eiddo. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig weithio mewn cydweithrediad drwy gydol y broses fel bo angen yn yr achos a

gwahodd asiantaethau perthnasol i gymryd rhan.

Bydd cynllunio o'r fath yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i sicrhau bod opsiynau eraill wedi eu hystyried, efallai drwy weithdrefnau diogelu oedolion, gan efallai osgoi'r angen i wneud cais am APSO.

60. Dylai swyddogion awdurdodedig gael cyswllt â'r heddlu, a allai helpu i adnabod unrhyw risg. Mae hefyd yn bwysig rhagweld, gymaint ag y bo'n bosib, natur a lefel rhan yr heddlu mewn gweithredu'r APSO mewn achos penodol. Er enghraifft, dylai swyddogion awdurdodedig gytuno gyda'r heddlu a oes angen i'r heddlu fod yn bresennol yn yr eiddo, neu a fyddai'n ddigon eu bod yn aros y tu allan neu gerllaw.

61. **Rhaid** i rai sy'n rhan o ystyried a oes angen APSO drafod y cais i sicrhau y bydd yn arwain at weithrediad ffurfiol, bod gan y swyddog awdurdodedig yr holl wybodaeth berthnasol a bod y camau nesaf wedi cael eu hystyried yn ddigonol unwaith y bydd yr APSO wedi dod i ben. Gallai'r bobl hyn gynnwys partneriaid perthnasol, asiantaethau eraill neu'r trydydd sector. Fodd bynnag, y swyddog awdurdodedig sy'n gyfrifol am y cais ac am weithredu'r gorchymyn os caiff ei wneud.

62. Wrth baratoi cais am APSO, dylid ystyried y pethau canlynol:

- **rhaid** i bawb sy'n rhan o'r broses ddeall beth yw pwrpas APSO a'u rôl yn y broses;
- nodi beth y gallai'r plismon ei wneud os bydd deiliad yr eiddo'n gwrthod cydymffurfio – yn enwedig lle gallai pwerau statudol neu gyfraith gyffredin gael eu defnyddio;
- **rhaid** trafod a chytuno ar bwy fydd yn gwneud beth; ni ellir gadael hyn tan y bydd yr APSO'n cael ei weithredu. Wrth gwrs, efallai y bydd angen diwygio'r cytundeb gan ddibynnu beth sy'n cael ei ddarganfod ar ôl cael mynediad at y person sydd efallai mewn perygl.

63. Efallai mai ychydig iawn a wyddys am y person yr amheuir eu bod mewn perygl. Efallai mai'r diffyg gwybodaeth ddibynadwy am y person ynghyd â phryderon am eu diogelwch yw'r rheswm am ofyn am yr APSO. Wrth baratoi cais, dylai swyddog awdurdodedig:

- fod yn gallu dangos tystiolaeth bod dulliau eraill a llai ymyriadol wedi cael eu hystyried, cyn barnu nad oeddent yn ddigonol. O ystyried y goblygiadau i hawliau dynol, rhaid i APSO fod yn opsiwn yn niffyg popeth arall a rhaid i'r swyddog awdurdodedig ddangos hynny;
- ystyried llunio 'mantolen' yn asesu'r risgiau a'r manteision o wneud cais / peidio â gwneud cais am orchymyn. Bydd hyn yn helpu'r swyddog

awdurdodedig wrth ystyried a ddylid gwneud y cais, ac yn gymorth hefyd i'r ustusiaid heddwch os yw cais yn cael ei wneud.

64. Nid oes raid i swyddogion awdurdodedig brofi i'r ustus heddwch y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod angen yr APSO. Efallai y gofynnir am yr APSO oherwydd nad oes digon o wybodaeth am yr oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl. Mae cyfrifoldebau'r ustus heddwch i'w cael yn Adran 127(4) o'r Ddeddf.

65. Gall yr ustus heddwch wneud APSO os yw'n fodlon:

(a) bod gan y swyddog awdurdodedig le rhesymol i amau bod y person yn oedolyn mewn perygl;

(b) bod angen i'r swyddog awdurdodedig gael mynediad er mwyn gallu asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl a gallu penderfynu fel sy'n ofynnol o dan Adran 126(2) pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

(c) bod angen gwneud gorchymyn er mwyn cyflawni'r pwrpasau o dan is-Adran (2); a

(d) na fydd ymarfer y pŵer i gael mynediad drwy'r gorchymyn yn arwain at roi'r person mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin neu esgeuluso.

66. Rhaid i'r ustus heddwch fod yn fodlon ynghylch y materion a nodir yn yr Adran uchod. Dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- 'lle rhesymol i amau';
- 'mae angen' – mae'n gofyn rhywbeth mwy na dim ond dymunol – dylai fod yn hanfodol neu na ellir ei osgoi;
- 'ni fydd ymarfer y pŵer i gael mynediad drwy'r gorchymyn yn arwain at roi'r person mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin neu esgeuluso' – ni fydd yn bosib bob tro dangos yn bendant na fydd hyn yn digwydd. **Rhaid** i'r dystiolaeth a gyflwynir fod yn ddigonol i fodloni'r ustus heddwch.

67. Y swyddog awdurdodedig syn gyfrifol am ddatblygu strategaeth gadael i'w dilyn ar ôl i'r swyddogion gael mynediad drwy'r APSO. Mae pryder y gallai gadael heb egluro beth sy'n digwydd nesaf i'r oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl, ac i'r deiliad, waethygu lefel y risg. **Rhaid** rhoi gwybod i bawb y mae'r APSO yn effeithio arnynt am y camau nesaf.

68. Gallai APSO gynnwys amod i roi rhybudd i ddeiliad yr eiddo ac i'r person yr amheuir eu bod yn oedolyn mewn perygl. Dylai paratoi'r cais roi sylw i nifer o faterion:

- sut fath o ‘rybudd’ sydd angen ei roi? A oes angen iddo fod yn ysgrifenedig, neu a fydd rhybudd ffôn yn ddigon?
- sut y bydd y swyddog awdurdodedig yn cynorthwyo’r ustus heddwch i asesu a fyddai rhybudd yn cyflwyno’r oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl i niwed pellach neu’n tarfu ar yr asesiad? Pa ffactorau eraill ddylid eu hystyried?
- dylid ystyried a oes angen rhoi gwybod i bobl eraill y bydd y gorchymyn yn effeithio arnynt – er enghraifft, lle mae pobl eraill yn byw mewn eiddo domestig, er enghraifft mewn llety cymorth.

69. Nid yw mwy nag un gorchymyn ar gyfer yr un person yn bosib, oni bai fod yr amgylchiadau wedi newid. Lle mae’n annhebygol y bydd un ymweliad yn ddigon, **rhaid** i’r cais gynnwys y cyfnod y bydd y gorchymyn mewn grym er mwyn gallu trefnu mwy nag un ymweliad o dan un APSO. Lle mae’r gorchymyn yn nodi mwy nag un ymweliad, **rhaid** nodi’n glir bod hyn er mwyn gallu cwblhau’r asesiad ac nid er mwyn monitro’r sefyllfa.

70. Pwrpas yr APSO yw fel bo’r swyddog awdurdodedig yn gallu asesu a yw’r person yn oedolyn mewn perygl ac yn gallu penderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Dylai’r asesiad gynnwys pethau fel ystyried y risg, statws iechyd, galluedd a gallu’r person i amddiffyn ei hun a lefel y risg cyn ac ar ôl ymyrryd drwy’r APSO. Dylai’r asesiad hefyd gynnwys a nodi beth yw dealltwriaeth y person o’r hyn sy’n digwydd a beth yw eu dymuniadau, gan roi’r pwysau priodol iddynt, ond cofio y gallai fod yn bosib eu bod yn cael eu gor-gymell.

71. Nid yw gorchymyn APSO yn rhoi pŵer cyffredinol i gael mynediad; mae eu ffocws ar y pwrpasau penodol a ddisgrifir yn Adran 127 (2) o’r Ddeddf. Unwaith y bodlonir y pwrpasau hynny, bydd APSO yn darfod a dylid cofnodi bod hynny wedi digwydd. Ni ellir parhau’n afresymol gyda’r pŵer fel rhyw fath o ataliad. Mae defnyddio APSO yn amodol i ddilyn yr egwyddor gyffredinol o gymesuredd. Mae hyn yn berthnasol i nifer yr ymweliadau a nifer y bobl sy’n cynorthwyo’r swyddog awdurdodedig yn yr ymweliad.

72. Gallai’r APSO gynnwys amodau o ran pryd y gellir ymarfer y gorchymyn. Heblaw mewn achos lle mae angen gweithredu ar frys, dylid ystyried yn ofalus pryd y penderfynnir cael mynediad i’r eiddo, p’un ai oes amod ynghlwm neu beidio. Gallai amseru cael mynediad fod yn arbennig o bwysig lle mae angen cyflawni asesiad o alluedd meddyliol.

73. Gallai APSO gynnwys amod bod yn rhaid i swyddog awdurdodedig gael ei gynorthwyo gan berson penodedig arall. Cyn belled ag y bo’n bosib, bydd person neu bersonau o’r fath yn cael eu hadnabod yn y cais. Dyma rai enghreifftiau o’r bobl hyn:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr (statudol neu anstatudol);
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd lles gorau;
- Meddyg Teulu;
- Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- Ymwelydd Llys Gwarchod, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

74. Wrth geisio cynnwys amod o ran pwy y dylid cynorthwyo'r swyddog awdurdodedig ar yr ymweliad, dylid rhoi'r rhesymau dros eu cynnwys yn y cais.

75. Efallai na fydd yn bosib adnabod ymlaen llaw beth yw natur unrhyw arbenigedd neu gymorth y bydd efallai ei angen i asesu'r person yr amheuir eu bod mewn perygl. Yn aml, bydd ond yn bosib cadarnhau hyn unwaith y bydd ymweliad asesu wedi'i gwblhau. Gall person priodol gynorthwyo'r swyddog awdurdodedig ar ymweliad pellach er na chawsant eu cynnwys mewn amod o dan Adran 127 (6) (b). Dylid cofnodi'r rhesymau llawn am eu cynnwys.

76. Bydd rôl ddisgwyliedig y rhai sy'n cynorthwyo'r swyddog awdurdodedig yn amrywio. Mae'r rolau hyn yn cynnwys er mwyn:

- sicrhau bod unrhyw gyfweliad gyda'r person yr amheuir eu bod mewn perygl yn cael ei gynnal yn deg;
- cynorthwyo gyda chyfathrebu;
- darparu gwybodaeth arbenigol a phrofiad ar faterion penodol (e.e. galluedd meddyliol);
- eiriol ar ran y person;
- rhannu eu gwybodaeth am y person;
- creu cytgord gyda'r person.

77. Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried a ddylai eiriolwr fynd gyda nhw. Dylai swyddogion awdurdodedig gofnodi pam eu bod yn credu na ddylai eiriolwr ddod gyda nhw. Os ystyrir bod angen eiriolwr, rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn glir o ran sut fath o eiriolwr sydd ei angen – Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA), Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA), Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) neu eiriolwr anstatudol.

78. Dylid nodi o dan Adran 127 (5)(b) o'r Ddeddf, bod yn rhaid i APSO gynnwys darpariaeth y gallai cwnstabl gynorthwyo'r swyddog awdurdodedig ar yr ymweliad.

Mae hyn yn adlewyrchu, er wedi'i gynnwys yn y gorchymyn, bod disgresiwn i benderfynu a ddylai cwnstabl gynorthwyo'r swyddog awdurdodedig neu beidio. Dylai'r rhai sy'n cyfrannu at baratoi'r APSO drafod, ar sail eu gwybodaeth am y sefyllfa, a ddylai cwnstabl fod yn bresennol yn yr ymweliad a chofnodi'r rheswm am y penderfyniad.

79. Dylai'r APSO gynnwys manylion am fesurau i leihau'r risg o gael mynediad gorfodol neu gydag elfen uchel o wrthdaro i'r eiddo. Bydd rôl yr heddlu'n dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol. Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd yr heddlu'n bresennol yn y cefndir, ond mewn sefyllfaoedd eraill bydd yr heddlu'n ganolog i gael mynediad at y person. Egwyddor bwysig yw bod yr heddlu'n defnyddio cyn lleied o rym ag y bo angen ac y dylai effaith eu presenoldeb gyfrannu at gyflawni pwrpasau'r APSO ac nid rhoi eu cyflawni yn y fantol.

80. Fel y nodwn uchod, o dan Adran 127 (7) o'r Ddeddf, mae pwerau'r cwnstabl o dan APSO yn fwy na sicrhau mynediad a hefyd yn cynnwys sicrhau bod pwrpasau APSO yn cael eu cyflawni. Gall y cwnstabl ddefnyddio ei phwerau neu ei bwerau i arestio os yw'n amau bod troseddau penodol wedi cael eu cyflawni.

81. O ystyried natur sensitif y pŵer hwn, mae'n hanfodol bod y swyddog awdurdodedig yn egluro'n glir beth sy'n digwydd i'r oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl, ac i unrhyw ddeiliad arall yr eiddo, a beth fydd yn digwydd ar ôl cwblhau'r ymweliad. Dylai'r rhai sy'n rhan o'r ymweliad gytuno ar y math o eiriau i'w defnyddio i ddisgrifio pwrpas yr ymweliad ac o dan ba bŵer statudol y mae'n digwydd. Yn yr un modd, mae gan ddeiliad yr eiddo hawl i dderbyn gwybodaeth am eu hawl i gwyno.

Dyletswydd i adrodd oedolion mewn perygl

82. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd newydd ar bartneriaid perthnasol i adrodd i awdurdod lleol os oes amheuaeth bod person yn oedolyn mewn perygl. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i adrodd i awdurdod lleol arall os yw'r person yr amheuir eu bod yn oedolyn mewn perygl yn byw yn, neu'n symud i ardal arall. Mae Adran 128 yn darparu fel a ganlyn:

a) Os oes gan bartner perthnasol i awdurdod lleol le rhesymol i amau bod person yn oedolyn mewn perygl ac yn ymddangos i fod yn ardal yr awdurdod, **rhaid** iddynt roi gwybod i'r awdurdod lleol am hynny.

b) Os yw'r person y mae gan y partner perthnasol le rhesymol i amau eu bod yn oedolyn mewn perygl yn ymddangos i fod mewn ardal awdurdod lleol heblaw'r ardal lle mae'n bartner perthnasol, **rhaid** iddynt roi gwybod i'r awdurdod lleol arall hwnnw.

c) Os oes gan awdurdod lleol le rhesymol i amau bod person yn ei ardal ar unrhyw adeg yn oedolyn mewn perygl ac yn byw neu'n bwriadu byw

mewn ardal awdurdod lleol arall (neu ardal awdurdod lleol yn Lloegr), **rhaid** iddynt roi gwybod i'r awdurdod lleol arall.

d) I bwrpas yr Adran hon, partner perthnasol i awdurdod lleol yw person sy'n bartner perthnasol i'r awdurdod ar gyfer y pwrpasau a eglurir yn Adran 162 y Ddeddf.

83. Mater allweddol o dan yr Adran hon (fel gydag Adrannau 126, 127, 128 a 130) yw ystyr 'lle rhesymol i amau'. **Rhaid** i'r person y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt fod â 'lle rhesymol i amau'. Dylid hefyd nodi'r ffactorau canlynol:

- nid oes angen sefydlu, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod ffaith benodol wedi cael ei sefydlu;
- mae hyn yn safon gymharol isel o'i chymharu â 'lle rhesymol i gredu';
- nid barn oddrychol y person sy'n penderfynu ydyw;
- mae amheuaeth resymol yn bodoli lle mae gwybodaeth a fyddai'n bodloni sylwedydd gwrthrychol bod yr amgylchiadau penodol yn bodoli.

84. Dylai ymarferwyr gofnodi'n ysgrifenedig unrhyw dystiolaeth y maen nhw'n dibynnu arni i wneud y penderfyniad, gan felly roi strwythur i'r broses benderfynu:

- crynodeb o'r wybodaeth y mae'r penderfyniad yn seiliedig arni;
- pam fod gwneuthurwr y penderfyniad yn ystyried yn wrthrychol bod angen gweithredu;
- datganiad byr am y risgiau posib i'r oedolyn os nad oes dim yn cael ei wneud.

85. Mae'r ddyletswydd i wneud ymholiadau o dan Adran 126 (2) y Ddeddf yn berthnasol p'un ai yw'r person yn preswylio yn yr ardal awdurdod lleol fel arfer neu beidio.

86. Dylid adnabod pwyntiau cyswllt clir ar gyfer yr awdurdod lleol a'r partneriaid perthnasol i sicrhau bod partner perthnasol yn gallu adrodd unrhyw bryderon i'r awdurdod lleol yn unol â'r ddyletswydd a ddisgrifir yn Adran 128 y Ddeddf. Dylai fod gan bob un o'r sefydliadau un pwynt cyswllt clir.

87. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod y person(au) priodol yn gweithredu i roi sylw amserol i unrhyw bryderon a nodir mewn adroddiad o dan yr Adran hon. Bydd yr adroddiadau hyn yn goleuo'r penderfyniad i wneud ymholiadau o dan Adran 126(2) neu beidio.

88. Dylai partneriaid perthnasol roi gwybod i staff yn eu sefydliadau am y ddyletswydd newydd hon i adrodd a bod angen iddynt adrodd unrhyw bryderon sydd ganddynt i'r swyddog priodol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau.

89. Dylai awdurdodau lleol roi trefniadau cyfatebol yn eu lle fel bod staff yn gallu adrodd ar draws yr awdurdod lleol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 10, Cod Ymarfer (Eiriolaeth)

Diogelu

67. **Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried a oes angen helpu i amddiffyn oedolion a phlant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae awdurdodau lleol yn brofiadol mewn cefnogi oedolion i benderfynu faint o risg y medrant ymdopi â fo. Mae Pennod 11 yn adnabod amgylchiadau lle byddai'n amhriodol i rywun weithredu fel eiriolwr.

68. Mewn partneriaeth â'r unigolyn, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a dod i gasgliad ar drefniadau i benodi eiriolwr proffesiynol annibynnol i gefnogi a chynrychioli unigolyn sy'n destun ymholiad diogelu o dan Adran 126 y Ddeddf neu Adran 47 o Ddeddf Plant 1989, neu sy'n destun trefniadau yng nghyswllt gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion o dan 127 y Ddeddf. Lle mae eiriolwr proffesiynol annibynnol eisoes wedi'i drefnu o dan y Ddeddf hon, neu o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, yna oni bai fod eiriolwr yn amhriodol, gellir defnyddio'r un eiriolwr.

69. Os oes angen dechrau ymholiad diogelu ar frys, gellir dechrau'r ymholiad cyn y penodir eiriolwr ond rhaid penodi un cyn gynted â phosib. Mae angen i bob asiantaeth ddiogelu wybod sut i gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth a beth yw eu rôl.

70. Mae'n hollbwysig yn y maes hynod sensitif hwn bod yr unigolyn yn cael ei gefnogi drwy beth allai deimlo fel proses eithaf brawychus a allai arwain at benderfyniadau anodd iawn. Gallai unigolyn y credir y cawsant eu cam-drin neu esgeuluso deimlo mor ddigalon, ofnus, ypset neu gymaint o embaras fel bod eiriolwr annibynnol a ddarperir o dan y Ddeddf i'w helpu i fynegi eu barn, dymuniadau a'u teimladau, a chyfranogi'n llawn, yn gwbl greiddiol.

Cyfeiriadau

1 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2017) Llyfr Gwaith Achos y Comisiynydd <http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/17-10-24/Commissioner_s_Casebook.aspx>

2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>

3 Comisiynwyd gan y pedwar Fforwm Amddiffyn Oedolion (2013) Polisi a gweithdrefnau interim Cymru ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth <https://socialcare.wales/resources/wales-interim-policy-and-procedures-for-the-protection-of-vulnerable-adults-from-abuse>

4 Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yng nghyswllt rhan 7 (Diogelu) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 <http://dera.ioe.ac.uk/21361/7/141027pt7statguideen.pdf>

5 GIG Cymru (2014) Ymchwilio i Friwiau Pwyso a'u Cofnodi, Canllaw Cymru Gyfan <http://www.welshwoundnetwork.org/files/1914/1076/7223/Pressure_Ulcer_Reporting_Investigation_All_Wales_Guide__2014_-_Approved-1.pdf>

6 Trafodaethau 'Yr hyn sy'n Bwysig i Mi' – sy'n cael eu crybwyll drwy'r cod ymarfer yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 2 y Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol) http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2en.pdf

7 Llywodraeth Cymru a GIG Cymru (wedi'i ddiweddaru 2017) Gweithio i Wella Lleisio pryder am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=932>

8 Mae gan bob Bwrdd Iechyd ei Wasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion ei hun <http://www.search.wales.nhs.uk/search/?q=Patient+Advice+and+Liaison+Service+%28PALS%29+>

9 Cymdeithas Alzheimer's (2017) Dyma Fi <https://www.alzheimers.org.uk/info/20033/publications_and_factsheets/680/this_is_me>

10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 10 <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>

11 GIG Cymru (2015) Safon Iechyd a Gofal 2.7, Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sydd mewn Perygl <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/standard-2-7-safeguarding-children-and-s